


# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Adolygiad o'r flwyddyn

## Adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon 2008 – 2009

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.





Adran 1—

# Cyflwyniad

## Rhagair y Llywydd

Eleni, cyrhaeddodd y Cynulliad a Chymru garreg filltir nodedig, sef degawd cyntaf datganoli, pryd y datblygwyd ein cyfansoddiad yn ymarferol. Drwy ein Pwyllgorau a'n Cyfarfodydd Llawn, daethom yn fwy effeithiol wrth ddwyn Gweinidogion Cymru i gyfrif. Hefyd, wrth basio'r Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008, dechreuom ddeddfu ar gyfer Cymru. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn haws i gleifion hawlio iawndal os bu'r driniaeth a gafwyd gan GIG Cymru yn esgeulus.

Hwn oedd y darn cyntaf o ddeddfwriaeth sylfaenol a wnaed gan y Cynulliad Cenedlaethol, a'r gyfraith Gymreig gyntaf i'w phasio ers cyfnod y cyfreithiau a gysylltir ag enw Hywel Dda yn y ddegfed ganrif. Hon hefyd oedd y gyfraith ddwyieithog gyntaf erioed i'w phasio ym Mhrydain. Rydym bellach yn ddeddfwrfa weithredol.

Mae pobl Cymru wedi sylwi ar ein datblygiad, ac wedi ymateb yn bositif i'r cynnydd yn nylanwad eu Cynulliad Cenedlaethol. Adlewyrchwyd hyn yng nghanfyddiadau cadarnhaol yr arolwg mwyaf erioed a gynhaliwyd i fesur dealltwriaeth y cyhoedd o dirlun gwleidyddol Cymru. Dangosodd yr arolwg a gomisiynwyd gan y Cynulliad, ac a gyhoeddwyd ym mis Hydref, fod gan bobl ddealltwriaeth gyffredinol gadarn o dirlun gwleidyddol Cymru. Dangosodd hefyd fod dros 70% yn cefnogi datganoli pŵer yn rhannol neu'n llawn i Gymru.



Ond mae llawer o waith i'w wneud o hyd er mwyn cynnwys pobl yn well yn y broses ddemocrataidd ac i sicrhau bod y Cynulliad yn cynrychioli buddiannau holl bobl Cymru. Mae grwpiau yn ein cymdeithas sy'n teimlo nad yw eu llais yn cael ei glywed, a hynny am resymau sy'n amrywio o ymddieithrio cymdeithasol i dlodi, ac mae'n rheidrwydd arnom i fynd i'r afael â'r apathi y mae hyn yn ei fagu.

Dyna pam y cynhelais gyfres o gyfarfodydd eleni â grwpiau sy'n aml yn teimlo nad ydynt yn rhan o'r broses wleidyddol.

I ddechrau, aethom i bob rhanbarth etholaethol yng Nghymru i ymweld â chynrychiolwyr o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, yn ogystal â grwpiau o bobl anabl, grwpiau cymunedau ffydd, grwpiau cyfeiriadedd rhywiol a grwpiau o bobl ifanc. Roedd y bwriad yn un syml, sef gweld sut y gallwn wneud y broses ddemocrataidd yn fwy hygyrch i bawb.

Mae safbwyntiau a lleisiau'r grwpiau hyn yn allweddol bwysig oherwydd, wrth i ni edrych ymlaen at ddegawd nesaf datganoli, rhaid i ni gofio bod y Cynulliad Cenedlaethol yn brysur ddod yn ganolbwynt i ymdeimlad cyflawn o hunaniaeth Gymreig. Ond rhaid sicrhau bod pawb yng Nghymru'n teimlo perchnogaeth o'r Cynulliad a'i waith.

Ein swyddogaeth ni yw cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, deddfu ar gyfer Cymru a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, ac mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau ein bod yn gwneud hynny gyda dealltwriaeth a chefnogaeth y bobl rydym yn eu cynrychioli.

Eleni, gwnaethom ymdrech arbennig i sicrhau bod pobl yn deall pwy ydym ni a'r hyn rydym yn ei wneud ac, yn bwysicach, bod pobl yn teimlo'u bod yn cael eu hannog i ddod yn ddinasyddion gweithredol a gwybodus. Rhaid i bobl weld bod democratiaeth yn perthyn i bawb. Ni all democratiaeth weithio os mai rhywbeth i'r lleiafrif yn unig ydyw, ac rydym wedi ymrwymo i barhau i wneud democratiaeth yn rhywbeth sy'n agored i bawb.

**Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Elis-Thomas CG AC**
**Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

## Rhagarweiniad gan Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad

Yn ystod y flwyddyn a fu, parhaodd y Cynulliad Cenedlaethol i ddatblygu ei swyddogaeth fel corff seneddol Cymru, ac rwy'n falch o fod yn arwain tîm brwdfrydig ac ymroddedig sydd wedi helpu i gyflawni'r llwyddiannau a amlygir yn yr adroddiad hwn.

Mae llywodraethu da ac atebolrwydd yn parhau wrth graidd ein gwaith, ac yn sail i nodau a llwyddiannau'r Cynulliad. Hefyd, rhoddwyd pwyslais ar ddull sy'n wynebu tuag allan, ac sy'n gosod pobl Cymru wrth galon popeth a wnawn.

Un o brif amcanion y Cynulliad Cenedlaethol yw helpu pobl i ddod yn ddinasyddion gwybodus a gweithredol, sydd â dealltwriaeth o'r broses ddemocrataidd, ac sy'n cymryd rhan lawn yn y broses o lunio dyfodol Cymru.

Er mwyn i bobl wneud penderfyniad gwybodus yn y blwch pleidleisio, rydym yn gwybod ei bod yn bwysig iddynt ddeall y broses ddemocrataidd, deall sut mae'n effeithio arnynt hwy ac, yn bwysicach, deall sut y gallant chwarae rhan weithgar yn y broses honno. Felly, gwnaeth y Cynulliad ymdrech sylweddol eleni i sicrhau bod pobl yn deall swyddogaeth y Cynulliad a sut y gallant ddylanwadu ar y gwaith a wneir gan Aelodau. Yr allwedd i hyn oedd amlygu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl a chymunedau er mwyn sicrhau bod eu buddiannau'n cael eu cynrychioli'n briodol ac yn gywir.

Gyda chefnogaeth ein Comisiynwyr, rydym wedi cryfhau'r sefydliad mewn amryw o feysydd, gan gynnwys dulliau gwell o ran rheoli risg, o ran cynllunio parhad busnes ac o ran cyflwyno rhaglen datblygu arweinwyr gynhwysfawr. Mae gennym dimau ym mhob rhan o'r Cynulliad sy'n llawn pobl ymroddedig a phroffesiynol sydd wedi darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i Aelodau'r Cynulliad gan roi cymorth iddynt gyda'u tair swyddogaeth o gynrychioli pobl Cymru, deddfu ar gyfer Cymru a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Rydym wedi ymrwymo i fod yn sefydliad blaengar o ran hyrwyddo cydraddoldeb, rhoi gwerth ar amrywiaeth a pharchu hawliau dynol yn ein rôl fel cyflogwr, o ran rhoi cymorth i Aelodau'r Cynulliad, ac o ran ymwneud â'r cyhoedd. Yn ystod y flwyddyn a fu, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gyflawni ein hamcanion o ran cydraddoldeb, gan gynnwys cyhoeddi cynllun cydraddoldeb a chynllun gweithredu cysylltiedig.

Ym mis Ionawr 2009, o ganlyniad i'n hymrwymiad i gydraddoldeb, cafodd y Cynulliad Cenedlaethol ei enwi fel un o'r cant cyflogwr mwyaf hoyw-gyfeillgar ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall 2009.

Cafodd y Cynulliad Cenedlaethol hefyd ei enwi fel y cyflogwr a oedd wedi gwella fwyaf yng Nghymru o ran bod yn hoyw-gyfeillgar a'r ail gorau o ran y cyflogwr a oedd wedi gwella fwyaf yn y DU.

Yn y dyfodol, rydym yn bwriadu cyrraedd cynulleidfa ehangach drwy ymwneud mwy â'n holl gymunedau, gan gynnwys defnyddio bws y Cynulliad Cenedlaethol. Byddwn hefyd yn cynnal ein hymrwymiad i arwain drwy esiampl o ran ein trefniadau llywodraethu corfforaethol. Er mwyn cynnal ein hymrwymiad i fod yn sefydliad seneddol agored a thryloyw, byddwn hefyd yn dechrau cyhoeddi treuliau Aelodau'r Cynulliad yn fisol.

Drwy weithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, rydym yn bwriadu lansio prosiect Cymru gyfan newydd a chyffrous a fydd yn rhoi cyfle i bobl nad ydynt fel arfer yn cymryd rhan yn y broses wleidyddol i gael profiad o weithio gydag Aelodau'r Cynulliad a'u cynghorwyr lleol.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sy'n gweithio i'r Cynulliad, ac i Gomisiynwyr y Cynulliad am eu diwydrwydd a'u gwaith caled wrth roi cymorth a chyngor i Aelodau'r Cynulliad. Dyna sy'n sicrhau ein bod yn gwneud y Cynulliad yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder pobl Cymru.

**Claire Clancy**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**



## Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn ffigurau

| | |
|---|---|
| **23,688** | Nifer y plant a gymerodd ran yng ngweithdai addysg y Cynulliad |
| **98** | Nifer y deisebau a gafwyd yn ystod y flwyddyn |
| **2,500** | Nifer y bobl a holwyd fel rhan o arolwg y Cynulliad o ddealltwriaeth pobl o ddatganoli |
| **4,425** | Nifer y papurau ymchwil a dogfennau ysgrifenedig a luniwyd gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau |
| **71** | Nifer y Cyfarfodydd Llawn a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn |
| **4,990** | Nifer y cwestiynau llafar a gyflwynwyd |
| **2,242** | Nifer y cwestiynau ysgrifenedig a gyflwynwyd |
| **85** | Nifer y cyfarfodydd Pwyllgorau Deddfwriaeth a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn |
| **5** | Nifer y Pwyllgorau Deddfwriaeth a sefydlwyd er mwyn rheoli proses ddeddfu'r Cynulliad |
| **257** | Nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd yn y Senedd yn ystod y flwyddyn |
| **8** | Nifer o weithiau y cynhaliwyd balot gan y Llywydd i alluogi Aelodau'r Cynulliad i gynnig cyfreithiau ar gyfer Cymru |
| **2,106,100** | Nifer y geiriau ysgrifenedig a gyfieithwyd gan wasanaeth cyfieithu'r Cynulliad |
| **146,528** | Nifer yr ymwelwyr â'r Senedd yn ystod 2008-09 |
| **95%** | Canran y papur a brynwyd gan y Cynulliad a ddaeth o ffynonellau ailgylchu gan gyflenwyr ardystiedig yr FSC |
| **3,000** | Nifer y pleidleisiau ar gyfer 'Cewri Cymru', a enillwyd gan Ray Gravell |
| **4,783,900** | Nifer y geiriau a gyhoeddwyd gan Gofnod y Trafodion dros y flwyddyn ddiwethaf |

## Uchafbwyntiau

| | |
|---|---|
| **Ebrill 2008** | Agorwyd Siambr Hywel gan y Tywysog Siarl, sef y siambr drafod bwrpasol gyntaf yn Ewrop ar gyfer pobl ifanc. |
| **Ebrill 2008** | Y Cynulliad yn cyflwyno ei system e-ddeisebu ar-lein, gan arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y deisebau a gyflwynir. |
| **6 Mai 2008** | Pasiodd y Cynulliad ei gyfraith gyntaf, y Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG - y gyfraith Gymreig gyntaf i gael ei phasio ers y ddegfed ganrif. |
| **Awst 2008** | Y Cynulliad Cenedlaethol yn penodi panel annibynnol i adolygu cyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad. |
| **Hydref 2008** | Yr arolwg gwleidyddol mwyaf i gael ei gynnal yng Nghymru erioed, a gomisiynwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, yn dangos bod 70% o bobl o blaid datganoli llawn neu rannol i Gymru. |
| **Tachwedd 2008** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn croesawu Ei Fawrhydi Brenin Letsie III o Lesotho i Fae Caerdydd, fel rhan o fenter i ddatblygu cysylltiadau rhyngseneddol rhwng Cymru a Lesotho. |
| **Rhagfyr 2008** | Y Llywydd yn croesawu ei gymheiriaid o'r Alban a Gogledd Iwerddon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Daeth William Hay MLA, Llefarydd Cynulliad Gogledd Iwerddon, ac Alex Fergusson MSP, Llywydd Senedd yr Alban, i Fae Caerdydd i ymweld â'r Senedd am y tro cyntaf. |
| **Ionawr 2009** | Ymwelodd Ei Huchelder Brenhinol Iarlles Wessex â'r Senedd yn ei rôl fel noddwr Mencap. |
| **Ionawr 2009** | Enwyd y Cynulliad fel y cyflogwr sydd wedi gwella fwyaf yng Nghymru ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall, ac yn un o'r 100 cyflogwr mwyaf hoyw-gyfeillgar yn y DU. |

Adran 2—

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Sut y mae'r Cynulliad yn gweithio

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.**

## Aelodau'r Cynulliad

Mae'r Cynulliad yn cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad etholedig, sy'n cynrychioli ardaloedd penodol yng Nghymru, a hynny fel aelod o blaid wleidyddol arbennig (y Ceidwadwyr, Llafur, y Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru) neu fel aelodau annibynnol.
Mae Aelodau'r Cynulliad yn cyfarfod bob wythnos yn ystod y tymor er mwyn trafod materion sydd o bwys i Gymru a'i phobl; maent yn holi Gweinidogion Llywodraeth Cymru, yn trafod polisïau'r Llywodraeth ac adroddiadau'r Pwyllgorau ac yn edrych yn fanwl ar gyfreithiau Cymru.

## Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol

Sefydlwyd Comisiwn y Cynulliad ym mis Mai 2007 i sicrhau bod y Cynulliad yn ymgymryd â'i rôl yn effeithiol ac yn effeithlon ac i sicrhau bod gan y Cynulliad yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen i gyflawni ei amcanion.

Mae'r Comisiwn yn pennu nodau, safonau, gwerthoedd ac amcanion strategol y corff corfforaethol ac yn ystyried perfformiad yn erbyn y targedau hyn, yn goruchwylio newid ac yn annog arloesedd a mentergarwch ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnwys y Llywydd, a phedwar Aelod Cynulliad arall, a enwebir gan bob un o'r pedwar grŵp gwleidyddol yn y Cynulliad. Mae'r pum Comisiynydd yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â swyddogaethau'r Comisiwn. Er mwyn helpu i gyflawni'r swyddogaethau hynny mae'r Comisiynwyr yn gyfrifol am y portffolios trawsbynciol a fanylir ar y dudalen gyferbyn.

Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu'r Comisiynwyr yn ffurfiol ar wyth achlysur i ystyried amrywiaeth o faterion, gan gynnwys cyllideb ddrafft y Cynulliad; newidiadau arfaethedig i'r system technoleg gwybodaeth; Cynllun Cydraddoldeb y Cynulliad; ein Strategaeth Frandio; a chynigion ar gyfer y panel annibynnol a gynhaliodd adolygiad o gyflogau a lwfansau'r Aelodau a chanllawiau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

Gallwch gael mwy o wybodaeth ar **dudalennau'r Comisiwn** ar ein gwefan.



**Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Elis-Thomas CG AC**
**Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Mae gan y Llywydd gyfrifoldeb arbennig dros annog pobl Cymru i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, annog arweinyddiaeth effeithiol o fewn y Cynulliad, datblygu pwerau deddfu'r Cynulliad yn y dyfodol a hybu ymgysylltiad effeithiol â rhanddeiliaid allanol.



**Chris Franks AC, Comisiynydd y Cynulliad sy'n Gwella**
Chris Franks AC sy'n gyfrifol am sicrhau bod gwasanaethau i Aelodau'r Cynulliad a phobl Cymru yn parhau i wella, yn ogystal â chynllunio strategol a sicrhau bod y Cynulliad yn sicrhau gwerth am arian. Mae hefyd yn gweithio gyda staff y Cynulliad Cenedlaethol i gynnwys rhanddeiliaid yn y broses ddemocrataidd.



**William Graham AC, Comisiynydd Adnoddau'r Cynulliad**
Mae portffolio William Graham AC yn cynnwys rheoli asedau a staff y Cynulliad Cenedlaethol (yn cynnwys cyflogeion, contractwyr a gwasanaethau a ddarperir i gynorthwyo staff cymorth Aelodau'r Cynulliad). Mae hefyd yn gyfrifol am oruchwylio cyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad yn ogystal â sicrhau bod y Cynulliad yn cydymffurfio â'r egwyddorion o effeithlonrwydd a llywodraethu da.



**Peter Black AC, Comisiynydd y Cynulliad a'r Dinesydd**
Mae Peter Black AC yn gyfrifol am sicrhau bod y Cynulliad yn effeithiol wrth ymgymryd â'i brif rôl, sef dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif a deddfu ar gyfer Cymru. Yn ogystal, mae'n goruchwylio mentrau cyfathrebu allanol effeithiol, sy'n cynnwys addysgu pobl ynghylch rôl y Cynulliad, darparu gwybodaeth effeithiol a thechnoleg gwybodaeth i'r Cynulliad a chyfreithlondeb.



**Lorraine Barrett AC, Comisiynydd y Cynulliad Cynaliadwy**
Mae Lorraine Barrett AC yn gyfrifol am sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cydymffurfio â'i bolisïau ar gydraddoldeb a hygyrchedd ac yn rhagori arnynt. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol a'i adeiladau yn cydymffurfio â'r egwyddor o gynaliadwyedd.



## Ein hamcanion strategol

Mae **Strategaeth ar gyfer y Trydydd Cynulliad** y Cynulliad Cenedlaethol yn nodi'n glir ei flaenoriaethau hyd at dymor nesaf y Cynulliad yn 2011.

Y nod cyntaf yw **annog mwy o bobl i gymryd rhan fwy ymarferol yn y broses ddemocrataidd**. Mae gweddill yr adroddiad hwn yn egluro sut yr ydym wedi cyflawni hyn drwy sicrhau gwell ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd o sut y mae'r Cynulliad yn gweithio, gwella'r ddealltwriaeth sydd gan bobl o natur y berthynas rhwng y Cynulliad a Llywodraeth Cymru a'r pwyslais a roddwn ar sicrhau bod pobl Cymru yn rhan o'r broses o ddeddfu dros Gymru a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi sut y mae'r Cynulliad **yn ymateb yn feiddgar i'w bwerau newydd**. Sefydlwyd Pwyllgorau deddfwriaeth parhaol newydd, ehangwyd rôl y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth i ymgymryd â'r gwaith o graffu ar sut y mae'r ffordd y caiff pwerau eu trosglwyddo i Gymru yn ffurfio tirlun cyfansoddiadol Cymru a phasiwyd Mesur dwyieithog cyntaf y Cynulliad. Cyfrannodd yr holl ffactorau hyn at gyflawni'r nod hwn.

Mae **cywirdeb a llywodraethu da** hefyd yn un o golongfeini gwaith y Cynulliad. Mae adroddiad eleni yn nodi sut y gwnaeth y Comisiwn sefydlu **panel annibynnol** i adolygu'r cymorth a roddir i Aelodau'r Cynulliad, ac ar gyfer yr adroddiad blynyddol hwn mae'r tîm o Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymateb i gais gan ein Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu i gynyddu lefel y gwaith archwilio a gynllunnir mewn perthynas â lwfansau'r Aelodau.

Mae'r Cynulliad bron yn unigryw fel corff seneddol, yn ymgymryd â'i holl waith gan ddilyn egwyddorion **gweithio cynaliadwy**. Adeiladwyd y Senedd gan ddefnyddio deunyddiau a phrosesau cynaliadwy, o'r goleuadau i ailgylchu dŵr glaw i'w ddefnyddio yn yr ystafelloedd ymolchi, ac eleni cawsom lwyddiant wrth gyflawni Lefel 5 System Reoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd (sy'n debyg i ISO 14001) ar gyfer yr holl ystâd – y lefel uchaf y gellir ei chyflawni yn y DU. Hefyd, dros y flwyddyn, mae'r Cynulliad wedi gwella ein hôl troed amgylcheddol mewn ffyrdd eraill, gan gynnwys cryfhau'r tîm cynaliadwyedd, gwella ein system rheoli adeiladau – cam a arweiniodd at ostyngiad o chwech y cant yn yr ynni a ddefnyddir – a chyflwynwyd system i fesur ein hôl troed carbon mewn perthynas â theithiau busnes.

Cyflawnwyd llawer o waith dros y deuddeg mis diwethaf i sicrhau ein bod yn darparu'r **gwasanaeth gorau yn y ffordd fwyaf effeithiol** i'n cwsmeriaid. Gan gydnabod y posibilrwydd y bydd cyfyngu ar wariant cyhoeddus, mae angen i ni weithio yn fwy effeithiol ac yn fwy effeithlon, gan ddefnyddio ein hadnoddau a chynllunio yn dda i gyflawni ein blaenoriaethau a dangos ein bod yn sicrhau'r gwerth gorau am arian cyhoeddus.

Rhai o'r camau allweddol a gymerwyd gennym yn ystod cyfnod yr adroddiad oedd gweithio tuag at achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl a lansio ein cynllun datblygu arweinyddiaeth. Bydd y camau hyn yn hwyluso'r gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau drwy gydol y trydydd Cynulliad.

Adran 3—

# Cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl

## Cynrychioli gwerth am arian

Nid oes unrhyw amheuaeth y caiff y flwyddyn ddiwethaf, ymhen rhai blynyddoedd, ei hystyried yn gyfnod pan gafodd sefydliadau democrataidd y Deyrnas Unedig eu herio i fod yn fwy tryloyw ac yn fwy atebol ac i ymateb yn well i anghenion a disgwyliadau'r etholwyr.

Ers i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael ei sefydlu fel corff deddfu ar wahân yn 2007, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cadw at ei amcan strategol o fod yn dryloyw ac atebol ac yn agored i'r cyhoedd graffu'n fanwl arno.

Fel rhan o'r ymrwymiad hwn i egwyddorion tryloywder, ym mis Awst 2008, penododd y Cynulliad Cenedlaethol banel adolygu annibynnol, o dan gadeiryddiaeth Syr Roger Jones, i gynnal adolygiad o'r cymorth ariannol a roddir i Aelodau'r Cynulliad. Cylch gwaith y panel oedd adolygu pob agwedd ar y cymorth ariannol sydd ar gael i Aelodau, gan gynnwys cyflogau a lwfansau teithio, llety, swyddfeydd etholaeth a staff cymorth, ac argymell newidiadau iddynt.

Casglodd y panel dystiolaeth fel rhan o'r gwaith adolygu ac ymgynghorodd yn eang, yn breifat ac yn gyhoeddus i glywed barn y cyhoedd, ynghyd â chyfarfod â chynghorau dinas, cynghorau tref, cynghorau cymunedol, sefydliadau sector cyhoeddus eraill, Aelodau'r Cynulliad a Chomisiynydd Safonau Cymru.

Cyhoeddwyd adroddiad y panel ar 6 Gorffennaf 2009. Ceir copi o'r adroddiad **yma**.

## Cynrychioli Cymru pan fydd yn gwneud deddfau ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif

Ym mhob agwedd ar ei waith, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bobl y cyfle i fynegi barn am y gwaith yr ydym yn ei wneud, a phennu cyfeiriad y gwaith hwnnw, a fydd yn effeithio ar eu bywydau o ddydd i ddydd yn y pen draw.


Yn ystod haf 2008, cynhaliodd y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol arolwg cyhoeddus, gan gynnwys 500 o bobl ifanc rhwng 14 a 16 oed, i gael eu barn am ganiatâd tybiedig i roi organau. Trafodwyd y mater hwn hefyd gan blant ysgol a oedd yn ymweld â Siambr Hywel, ac yna pleidleisiodd y plant ar y cynnig mewn perthynas â'r ddadl gan ddefnyddio'r system bleidleisio electronig. Yn ystod sioeau cenedlaethol Cymru yn yr haf, cafodd y cyhoedd gyfle i gyfleu eu sylwadau ar y mater hwn drwy adael negeseuon fideo yn stondin y Cynulliad. Roedd yr ymatebion i'r adolygiad a chasgliadau'r dadleuon yn gymorth wrth i'r Pwyllgor lunio'i adroddiad terfynol ar y pwnc, a gafodd gryn sylw yn y cyfryngau.


Yn yr un modd, pan oedd y Cynulliad yn bwriadu cyflwyno deddf newydd i sicrhau bod bwyd ysgol yng Nghymru yn faethlon ac yn gytbwys, cynhaliwyd ymgynghoriad eang ar Fesur arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2008. Yn ogystal ag annog y cyhoedd a rhanddeiliaid i fynegi barn, cafodd pob ysgol a ymwelodd â'r Cynulliad gyfle i bleidleisio a oeddent yn credu bod angen deddfwriaeth i sicrhau eu bod yn cael prydau iach.

Ym mis Chwefror 2009, cynhaliodd y Cynulliad Cenedlaethol ymgynghoriad eang, pan ofynnodd un o'n Pwyllgorau deddfwriaeth i bobl Cymru a ddylai'r Cynulliad gael yr hawl i ddeddfu ar yr iaith Gymraeg, yn hytrach na bod deddfau ar yr iaith yn cael eu pasio yn San Steffan. O ganlyniad i hyn, cafwyd 300 ymateb a oedd yn gymorth i'r Pwyllgor wrth ddod i benderfyniad ar yr angen am ddeddfwriaeth o'r fath.









## Cynrychioli pobl ifanc Cymru

Fel rhan o ymdrechion y Cynulliad i annog pobl ifanc i ddysgu am y broses ddemocrataidd, cafodd cyn siambr drafod y Cynulliad yn Nhŷ Hywel - a enwyd ar ôl Hywel Dda, y Brenin o'r ddegfed ganrif - ei thrawsnewid a'i hail-enwi yn Siambr Hywel ym mis Ebrill 2008. Tybir mai Siambr Hywel yw'r siambr drafod bwrpasol gyntaf yn y byd ar gyfer pobl ifanc. Mae'n cynnig fforwm i bobl ifanc ac yn rhoi cyfle iddynt drafod gan ddilyn yr un rheolau â'r rhai sy'n rheoli trafodion y Cynulliad, lle bydd pobl ifanc yn gwneud cais i siarad ac yna cânt eu galw mewn trefn.

Mae ymgynghori â phobl ifanc yn rhan ganolog o'n gweithgareddau yn Siambr Hywel, ond mae hefyd wedi cael ei defnyddio fel lleoliad ar gyfer 19 digwyddiad yn ystod y flwyddyn ac yn eu plith roedd Cynulliad Model CEWC, Ffug Gyngor Gweinidogion yr Undeb Ewropeaidd, cynhadledd Cyfranogiad Ieuenctid y Cynulliad a chynhadledd safon UG/U mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth (CBAC). Mae'r digwyddiadau hyn yn dangos ein hymrwymiad i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allanol er mwyn deall yn well sut y gall unigolion chwarae rôl yn nemocratiaeth Cymru.

Ym mis Medi 2008, lansiodd y Cynulliad system allgymorth addysg newydd ar gyfer de Cymru, ac ymwelwyd ag 80 o ysgolion a cholegau. Yn rhanbarthau gogledd Cymru a gorllewin a chanolbarth Cymru, cafodd 287 o ysgolion a cholegau gyflwyniadau drwy ein rhaglen allgymorth. Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd y tîm addysg, gyda'i gilydd, gyflwyniadau a gweithdai i 683 o ysgolion a cholegau, gan gyrraedd cynulleidfa o 23,688 o ddisgyblion.

## Cynrychioli buddiannau Cymru drwy dechnoleg

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymroddedig i sicrhau ein bod yn dewis y ffyrdd mwyaf arloesol a defnyddiol o gyfathrebu â phobl Cymru. Wrth i dechnoleg newid, felly hefyd y mae disgwyliadau pobl o ran sut y gallant gyfathrebu â ni yn newid. Rydym yn ymrwymedig i ddefnyddio'r dulliau mwyaf modern a chynhwysol sydd ar gael i helpu pobl, gan gynnwys pobl nad ydynt yn ymddiddori yn y Cynulliad a'i waith fel arfer, i ddeall, ymgysylltu a chymryd rhan mewn democratiaeth yng Nghymru.

Ym mis Ebrill 2008, ehangodd y Cynulliad Cenedlaethol ei wasanaethau e-ddemocratiaeth, gan gynnwys lansio ein system e-ddeisebu, gwell gwasanaeth gweddarlledu 'Senedd.tv', e-fforymau a chyfleuster 'pleidleisio cyflym' ar gyfer ymgynghoriadau ar-lein mewn perthynas ag ymchwiliadau Pwyllgor.

Hefyd, mae tîm cyswllt â'r cyfryngau yn y Cynulliad wedi dechrau ar y gwaith o sicrhau ein bod yn rhoi gwybodaeth i newyddiadurwyr sy'n adlewyrchu eu hanghenion mewn cyfnod pan fo tirlun y cyfryngau yn newid yng Nghymru.  O fis Mawrth 2009 ymlaen, anfonwyd clip sain dwyieithog gyda bron pob stori a gafodd eu hanfon i'r cyfryngau, sy'n golygu bod gorsafoedd radio lleol mewn ardaloedd y tu allan i Gaerdydd yn gallu darparu gwybodaeth na fyddai ar gael iddynt fel arall.

At hynny, mae'r Cynulliad wedi cynnal adolygiad eang o wasanaethau a systemau technoleg gwybodaeth (TG), gan ganolbwyntio ar sut y gall y Cynulliad ddefnyddio TG i wella ein ffordd o weithio a'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â'r cyhoedd. Roedd yr adolygiad 'iChange' yn cynnwys ynghynghori ag Aelodau'r Cynulliad a nifer o staff cymorth ar draws yr holl bleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad a staff y Cynulliad. Cafodd pawb eu hannog i roi eu barn am gryfderau a gwendidau systemau a gwasanaethau cyfredol a'r hyn y hoffent ei weld yn y dyfodol.

Ymhellach, mae Gwasanaeth Ymchwil Aelodau'r Cynulliad wedi cyflwyno gwasanaethau tracio ar-lein newydd i helpu'r cyhoedd i gael gwell dealltwriaeth o waith y Pwyllgorau craffu a'r Pwyllgorau deddfwriaeth. Gellir dod o hyd iddynt drwy'r gwefannau **datblygiad ymchwiliadau gan Bwyllgorau Craffu** a **datblygiad Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD) a Mesurau**. Mae'r gwasanaeth **nodiadau tracio pwerau'r Cynulliad** yn darparu'r asesiad mwyaf cynhwysfawr sydd ar gael i'r Cynulliad a'r cyhoedd o gymhwysedd deddfwriaethol sy'n datblygu yn y Cynulliad a'r ddeddfwriaeth y daw ohoni.

## Cynrychioli eich buddiannau drwy ddeisebau

Enghraifft drawiadol arall o ddefnyddio technoleg i helpu pobl i weithio ar y cyd gyda'r Cynulliad Cenedlaethol yw'r system e-ddeisebu. Mae gan wasanaeth o'r fath y gallu i gyrraedd cymaint yn fwy o bobl na deiseb bapur draddodiadol ac mae'n gwneud y gwaith o gyflwyno deisebau yn llawer symlach.

Mewn cyfnod o ychydig dros ddau fis yn dilyn ei lansiad ym mis Ebrill 2008, cyfrannodd y system e-ddeisebu bumed rhan o'r holl ddeisebau ar gyfer y flwyddyn gyfan. Mae hyn yn dangos bod ffyrdd o ymgysylltu â'r Cynulliad sy'n hawdd i'w defnyddio yn helpu pobl i sylweddoli nid yn unig bod eu lleisiau a'u barn yn cael eu clywed ond bod camau yn cael eu cymryd i ymateb iddynt.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad, cafodd y Pwyllgor ddeiseb gan glwb ieuenctid Ammanford Junior Gateway yn galw am gael cyfleusterau nofio am ddim drwy'r flwyddyn i blant a phobl ifanc, a oedd yn golygu bod 150 o ddeisebau erbyn hynny wedi dod i law. Cafodd y Pwyllgor y ddeiseb hon gan y deisebwyr yn y Pwll Cenedlaethol yn Abertawe. Roedd Ellie Simmonds a David Roberts, enillwyr y fedal aur yn y Gemau Paralympaidd, yno i gefnogi'r deisebwyr.

Cynhaliodd y Pwyllgor ei ymchwiliad cyntaf yn ystod y cyfnod hwn ar ddeiseb gan Gymdeithas Canŵio Cymru, a chyflwynodd adroddiad arno. Roedd y ddeiseb yn galw am newid yn y gyfraith i ganiatáu mynediad at ddŵr mewndirol ar gyfer gweithgareddau hamdden llai heriol. Fel rhan o'i ymchwiliad, aeth y Pwyllgor ar daith i weld yr afon Teifi yng ngorllewin Cymru lle cyfarfu ag amrywiaeth o dirfeddianwyr a phobl sy'n defnyddio'r dŵr. Cynhaliodd hefyd gyfarfod ffurfiol yn Senedd yr Alban, er mwyn dod i ddeall y sefyllfa yn yr Alban, lle cyflwynwyd hawl i fynediad rai blynyddoedd yn ôl.

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi cynnal amrywiaeth o ymweliadau i gasglu tystiolaeth ar gyfer gwahanol ddeisebau a hefyd wedi cynnal cyfarfodydd ffurfiol mewn lleoliadau sy'n agosach i'r cymunedau y daw'r deisebau ohonynt. Maent wedi cynnal grwpiau trafod bach, ymweliadau â safleoedd a gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth; wedi cael tystiolaeth ar ffurf DVD ac wedi recordio clipiau fideo byr i roi gwybod i ddeisebwyr beth yw canlyniadau'r deisebau sydd ar gael ar dudalennau'r **Pwyllgor Deisebau** ar ein gwefan.

## Cynrychioli'r Cynulliad yn y gymuned

Wrth baratoi ar gyfer dengmlwyddiant y Cynulliad yn 2009, cafwyd tystiolaeth bellach o ymrwymiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddemocratiaeth gyfranogol pan sefydlwyd y tîm Allgymorth a Chyfranogi. Mae pedwar o staff y Cynulliad, ym mhedwar gwahanol ran o Gymru, yn gyfrifol am sefydlu partneriaethau gyda sefydliadau ac unigolion lleol i annog mwy o bobl i gyfranogi yng ngwaith y Cynulliad a gwella eu dealltwriaeth o ddatganoli.

Yn ystod y flwyddyn, lansiwyd bws allgymorth y Cynulliad. Bydd y bws yn teithio yn bennaf o amgylch gogledd Cymru, a bydd yn golygu bod y Cynulliad yn dod at garreg drws pobl yng nghymunedau ar draws y Gogledd, gan alluogi pobl i gael mynediad at waith y Cynulliad ac i fynegi barn.

Arweiniodd y Llywydd ymgyrch i annog mwy o bobl sy'n draddodiadol wedi wynebu rhwystrau i gyfranogiad i ymgysylltu â'r Cynulliad, drwy gynnal taith o bum rhanbarth etholiadol Cymru er mwyn siarad â grwpiau cynrychiadol i glywed eu barn am sut y gallwn gywiro'r sefyllfa. Dechreuodd y daith yn Abertawe, lle ymwelodd y Llywydd â'r Ganolfan Gymunedol Affricanaidd. Yna cyfarfu â chynrychiolwyr grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Cyfarfu'r Llywydd â grwpiau plant a phobl ifanc, pobl anabl, grwpiau ffydd a Stonewall Cymru er mwyn canfod sut y gall y Cynulliad weithio yn rhagweithiol gyda'r grwpiau hynny i sicrhau ei bod yn haws iddynt gael mynediad at ddemocratiaeth. Roedd hwn yn ddechrau ar ymrwymiad i weithio'n agosach fyth gyda grwpiau o'r fath i sefydlu democratiaeth sydd yn wirioneddol gynrychiadol.

Yn ystod 2008-2009, cyflawnwyd gwaith gan y Cynulliad a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gynllun mentora ar y cyd ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Bydd y cynllun yn rhoi cyfle i unigolion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ddysgu mwy am ddemocratiaeth yng Nghymru drwy ddilyn arferion gweithio eu mentoriaid gwleidyddol penodedig, gan ddysgu mwy am eu rôl a chyfrifoldebau, a'u hannog i fod yn fwy gweithredol ym mywyd y gymuned.







## Cynrychioli Cymru dramor

Yn ystod y flwyddyn, mae swyddfa'r Cynulliad Cenedlaethol ym Mrwsel wedi parhau â'r gwaith o gynrychioli buddiannau Cymru yn Ewrop, ac eleni mae wedi bod yn gweithio'n agos gyda Christine Chapman AC mewn perthynas â gwaith Pwyllgor y Rhanbarthau ar ddyfodol Cytuniad Lisbon.

Aeth Rosemary Butler AC, Dirprwy Lywydd y Cynulliad, i gyfarfod blynyddol CALRE (Cynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop) yn Bilbao.

Mae rhai o Aelodau'r Cynulliad yn cynrychioli Cymru ar Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA). Cynrychiolodd Janet Ryder AC a Nerys Evans AC Gynulliad Cenedlaethol Cymru yng nghynhadledd flynyddol y Gymdeithas a gynhaliwyd yn Kuala Lumpur, Malaysia. Roedd Alun Cairns AC hefyd yn bresennol yn rhinwedd ei rôl fel Cynrychiolydd Rhanbarthol y DU. Thema'r gynhadledd lawn eleni oedd ehangu rôl y senedd mewn cymdeithas fyd-eang ('Expanding the Role of Parliament in Global Society: Environment, Development and Security'). Roedd dros 600 o seneddwyr o 9 rhanbarth y Gymanwlad yn bresennol yn y gynhadledd, yn cynrychioli 50 gwlad a dros 160 o seneddau a deddfwrfeydd.

Dros y flwyddyn, mae Aelodau'r Cynulliad wedi croesawu nifer o ymwelwyr o wledydd y Gymanwlad i'r Cynulliad, gan gynnwys:

- Yr Anrhydeddus (Richard) George Richard Torbay, Llefarydd y Cynulliad Deddfu, Senedd De Cymru Newydd, ynghyd â Russell Grove, Clerc i'r Senedd – Ebrill 2008
- Yr Anrhydeddus Don Harwin, Aelod o'r Cyngor Deddfu, Senedd De Cymru Newydd – Ebrill 2008
- Yr Anrhydeddus Don Wing, Llywydd y Cyngor Deddfu a Mr David Pearce, Clerc y Cyngor Deddfu, Senedd Tasmania – Mai 2008
- Yr Anrhydeddus Hlomohang Morokole, Is-lywydd Senedd Lesotho – Tachwedd 2008.

Cynhaliodd aelodau'r **Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol** ddau ddiwrnod o gyfarfodydd anffurfiol preifat ym Mrwsel â chynrychiolwyr nifer o sefydliadau Ewropeaidd. Drwy'r cyfarfodydd hyn, cafwyd gwybodaeth amhrisiadwy i gynorthwyo'r Pwyllgor yn ei waith o graffu ar faterion o bwys sy'n effeithio ar Gymru, gan gynnwys camau sy'n cael eu cymryd ar lefel yr UE i fynd i'r afael â'r argyfwng economaidd ac ariannol, dyfodol ariannu'r polisi cydlyniant ac effaith y Polisi Amaethyddol Cyffredin.

## Edrych i'r dyfodol

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cynulliad wedi paratoi'r ffordd ar gyfer nifer o ffyrdd newydd ac arloesol o helpu pobl i gael gwell dealltwriaeth o'r Cynulliad a'i waith, ac i annog pobl i gymryd rhan yn y broses o wneud deddfau i Gymru ac i helpu i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r gwaith o ailwampio adeilad y Pierhead wedi cychwyn, sef yr adeilad ger y Senedd sy'n gefndir i fwletinau newyddion dyddiol BBC Cymru a ITV Cymru. Mae'n rhan o ystâd y Cynulliad, a helpodd Cymru i ffurfio ei hunaniaeth "wrth ddŵr a thân" yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i'w newid i fod yn lle a fydd yn argyhoeddi, yn cynrychioli ac yn ysbrydoli cenhedlaeth newydd i ffurfio tirlun gwleidyddol y dyfodol.

Adran 4—

# Deddfu ar gyfer Cymru

## Deddfu ar gyfer Cymru

Wrth i'r Cynulliad sefydlu ei hun fel deddfwrfa aeddfed, mae'n ddiddorol edrych yn ôl er mwyn gwerthfawrogi sut mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi newid tirlun deddfwriaethol Cymru.

Rhwng 1945 a 1999, dim ond 11 o Ddeddfau a oedd yn berthnasol i Gymru'n unig a gafodd eu pasio gan Senedd y DU – cyfartaledd o un bob pum mlynedd. Rhwng 1999 a 2007, cafodd wyth Deddf arall 'Cymru'n unig' eu pasio; cyfartaledd felly o un Ddeddf "Gymreig" bob blwyddyn.

Roedd dydd Mawrth 6 Mai 2008 yn ddiwrnod hanesyddol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, pan gafodd y Mesur Cynulliad cyntaf erioed ei basio, sef y Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007. Dyma oedd y darn cyntaf o ddeddfwriaeth sylfaenol a wnaeth y Cynulliad Cenedlaethol, y ddeddf Gymreig gyntaf i gael ei phasio ers y ddegfed ganrif a'r ddeddf ddwyieithog gyntaf erioed i gael ei phasio ym Mhrydain.

Yn ogystal â hynny, rhwng mis Mai 2008 a 31 Mawrth 2009:

- cafodd pedwar Mesur Cynulliad eu pasio
- cafodd tri Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol eu gwneud yn rhoi pwerau deddfwriaethol i'r Cynulliad
- roedd saith Gorchymyn arall wedi bod drwy broses graffu cyn deddfu, gan gynnwys dau a gynigiwyd gan Aelodau meinciau cefn
- cyflwynwyd y Mesur Arfaethedig Pwyllgor cyntaf yn ystod 2008/09 – sef Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a ddatblygwyd gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a oedd yn cynnig rhoi swyddogaeth statudol i'r Comisiynydd Safonau.

Er mwyn cyflawni hyn, dilynwyd y camau canlynol:

- cynhaliodd y Pwyllgorau deddfwriaeth 85 o gyfarfodydd i drafod pob Gorchymyn a Mesur arfaethedig, a chynhyrchwyd saith o adroddiadau
- cyfarfu'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth 32 o weithiau ac adrodd yn ôl ar bob Offeryn Statudol a Mesur arfaethedig a osodwyd ac mae wedi cychwyn craffu ar Fesurau'r DU
- cynhaliodd y Llywydd wyth balot ar gyfer deddfwriaeth arfaethedig Aelod – pedwar yn cynnig Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol a phedwar yn cynnig Mesurau Cynulliad.

Caiff manylion llawn ar gynnydd Gorchmynion a Mesurau eu casglu gan Wasanaeth Ymchwil Aelodau'r Cynulliad a gellir eu gweld **yma ar wefan y Cynulliad**.



Pan gaiff Mesurau'r Cynulliad eu cymeradwyo gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor, maent yn dod o dan Hawlfraint y Goron, a rhaid iddynt gynnwys arwyddlun addas wrth eu cyhoeddi. Cafwyd trafodaethau, felly, rhwng y Cynulliad a'r Coleg Arfbeisiau i ddatblygu arwyddlun brenhinol a fyddai'n nodweddiadol Gymreig ei natur ac a fyddai'n briodol ar gyfer nodi natur unigryw Mesurau'r Cynulliad fel deddfwriaeth ar gyfer Cymru.

Cafodd Bathodyn Brenhinol Cymru ei ddadorchuddio yn ystod y flwyddyn, a bydd yn ymddangos ar holl Fesurau'r Cynulliad. Mae'n seiliedig ar arfbeisiau tywysogion brodorol Cymru, gan ddyddio yn ôl i'r drydedd ganrif ar ddeg, ac a ddefnyddir hefyd gan Dywysog Cymru ar y faner a gaiff ei defnyddio ganddo yng Nghymru.





## Ymateb i'r tirlun deddfwriaethol newydd

Mae gweddnewidiad mor fawr â hyn wedi arwain hefyd at newidiadau strwythurol a gweithdrefnol sylweddol er mwyn ymateb i'r cynnydd yn llwyth gwaith deddfwriaethol Pwyllgorau'r Cynulliad. Mae'r pwyllgorau wedi mynd ati i chwilio am ffyrdd arloesol o ehangu'r ffordd y mae'r cyhoedd yn cymryd rhan yn y modd y mae'r Cynulliad yn deddfu ar gyfer Cymru.

Er enghraifft, roedd y Pwyllgor a oedd yn craffu ar y Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion yn teimlo ei bod yn bwysig ymgynghori â phlant a phobl ifanc y byddai'r ddeddfwriaeth hon yn effeithio arnynt. I'r diben hwn, anfonwyd holiadur a oedd yn seiliedig ar y deg darpariaeth o fewn y Mesur arfaethedig at sampl o ddeg y cant o ysgolion yng Nghymru i asesu barn y disgyblion. Cafwyd dros 700 o ymatebion a fu o gymorth i lywio'r gwaith o lunio adroddiad y Pwyllgor.

Ymateb y Cynulliad i'r newid yn y tempo deddfwriaethol oedd sefydlu pum Pwyllgor deddfwriaeth parhaol, a Chadeirydd annibynnol heb bleidlais ar bob un ohonynt. Mae un yn ymdrin yn bennaf â deddfwriaeth a gyflwynir gan Aelod neu Bwyllgor a'r pedwar arall yn ymdrin â deddfwriaeth arfaethedig a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn wedi arwain at reoli llif deddfwriaeth drwy'r Cynulliad yn well. Mae hefyd wedi arwain at greu grwpiau o Aelodau a Chadeiryddion sydd ag arbenigedd cynyddol yn y dasg arbenigol o graffu ar ddeddfwriaeth.

## Craffu ar ddeddfwriaeth ar gyfer Cymru

Mae nifer o Bwyllgorau eraill hefyd yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o archwilio Mesurau'r Cynulliad, Gorchmynion Cymwyseddau Deddfwriaethol a Mesurau'r DU a'u heffaith ar Gymru.

Bu **Pwyllgor Cyllid** y Cynulliad yn ystyried effeithiau ariannol pedwar Mesur arfaethedig ar Gymru a chyflwynodd adroddiad i adlewyrchu hyn, a hynny ar y sail y bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried canlyniadau'r ddeddfwriaeth newydd wrth osod ei chyllideb os caiff y Mesurau hyn eu pasio. Bydd y Pwyllgor Cyllid yn edrych yn fanwl ar effeithiau ariannol unrhyw Fesur arfaethedig er mwyn sicrhau bod y costau wedi'u cyfrifo'n gywir cyn iddo gael ei wneud yn gyfraith.

Yn ystod yr hydref a'r gaeaf, cynhaliodd y **Pwyllgor Menter a Dysgu** waith craffu cyn deddfu ar ddeiseb a gyflwynwyd gan Sustrans i'r Cynulliad a oedd yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud cais am bwerau a fyddai'n gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu a chynnal rhwydwaith o lwybrau didraffig y gellir eu rhannu rhwng cerddwyr, beicwyr a phobl anabl ledled Cymru.

Ymgynghorodd y Pwyllgor yn eang, a'r cydsyniad cyffredinol ymysg y rhai a ymatebodd oedd y dylai cymhwysedd deddfwriaethol gael ei roi i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â'r mater hwn.

Y farn oedd y byddai rhwydwaith o lwybrau di-draffig yn annog mwy o bobl i fabwysiadu ffyrdd fwy iach o fyw ac y byddai'n helpu i leihau'r defnydd o geir preifat. Byddai hyn, yn ei dro, yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau o ran newid hinsawdd ac o fudd i dwristiaeth a'r economi leol.

Canlyniad hyn oedd i'r Pwyllgor gael ei argyhoeddi y byddai buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sylweddol y cynllun yn sicrhau ei gynaliadwyedd hirdymor, ac mae'n gobeithio cynnig deddfwriaeth i sicrhau y bydd hyn yn digwydd.

## Craffu ar ddeddfwriaeth arall sy'n effeithio ar Gymru

Mae Pwyllgorau'n chwarae rhan bwysig hefyd wrth graffu ar fathau eraill o ddeddfwriaeth a fydd yn effeithio ar Gymru.

Bu'r **Pwyllgor Cynaliadwyedd** yn craffu ar Fesur Cynllunio'r DU er mwyn cael eglurhad o'i effeithiau ar Gymru, yn arbennig o ran sefydlu Pwyllgor Cynllunio Seilwaith a phwy fyddai'n gyfrifol am benderfyniadau cynllunio. Holodd y Pwyllgor y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ynghylch y Mesur Seneddol a gwnaeth nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru, gyda'r nod o ddiogelu buddiannau Cymru o fewn cyd-destun y Mesur Seneddol, yn arbennig o ran yr angen i drosglwyddo'r pwerau angenrheidiol i Gymru.

Ar gais Pwyllgor Dethol Arloesedd, Prifysgolion, Gwyddoniaeth a Sgiliau Tŷ'r Cyffredin, ymatebodd y **Pwyllgor Menter a Dysgu** i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y Mesur Prentisiaethau Drafft. Cafodd y Mesur Seneddol drafft ei ddrafftio mewn ffordd a oedd yn berthnasol i Loegr yn unig. Roedd y Pwyllgor am i Lywodraeth Cymru egluro'r modd y byddai'n bosibl ymgorffori cymalau Cymreig yn y Mesur Seneddol. Holodd y Pwyllgor John Griffiths AC, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, mewn cyfarfod ym mis Mawrth. Barn y Pwyllgor oedd bod y broses ddeddfwriaethol ar gyfer ymgorffori cymalau Cymreig mewn Mesurau o bwys yn Senedd y DU yn anfoddhaol ac nad oes digon o le ar gyfer gwaith craffu trylwyr naill ai yn San Steffan nac yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Nododd Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ei bod yn amlwg nad yw'r ymgynghoriad ar weithredu prentisiaethau yng Nghymru ac ar weithredu'r ddeddfwriaeth ddrafft yng Nghymru wedi bod yn ddigonol. Felly mae wedi argymell bod y Llywodraeth yn cywiro'r diffyg hwn cyn i'r darpariaethau yn y Mesur Seneddol drafft gael eu cwblhau.

Bu'r **Pwyllgor Cynaliadwyedd** yn craffu ar y Mesur Newid yn yr Hinsawdd y DU gan ei fod yn cynnwys nifer o ddarpariaethau a fydd yn effeithio'n sylweddol ar Gymru. Gwnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion i sicrhau bod y Mesur Seneddol yn adlewyrchu'n llawn flaenoriaethau a buddiannau Cymru. Roedd y rhain yn canolbwyntio'n arbennig ar yr angen i sicrhau y rhoddir mwy o bwyslais ar y targedau a'r amcanion yn y Mesur Seneddol i fynd i'r afael â Newid yn yr Hinsawdd, a bod y targedau a'r amcanion yn fwy clir.

Er mwyn mabwysiadu ffordd ragweithiol o archwilio'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru a'r Cynulliad gan Fesurau'r DU, mae'r **Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth** bellach yn ceisio:

– nodi'r pwerau ym Mesurau'r DU sy'n berthnasol i Gymru ac ystyried a ddylai unrhyw bwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gael eu rhoi i Weinidogion Cymru
– ystyried a yw gweithdrefnau ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth yn briodol, pan fydd pwerau wedi cael eu rhoi i Weinidogion Cymru ym Mesurau'r DU
– ystyried a ddylai Llywodraeth Cymru wneud cais am bwerau i wneud Mesurau, yn hytrach na phwerau dirprwyedig i Weinidogion, pan fydd Mesurau Seneddol yn ymwneud â meysydd o fewn Atodlen 5 i Ddeddf 2006.

Dechreuodd y Pwyllgor ar y gwaith hwn drwy gyflwyno adroddiad ar y Mesur Seneddol Atodiad Ardrethi Busnes a fydd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru. Mae'r adroddiad yn amlinellu barn y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru fod yn manteisio ar y cyfleoedd a gaiff eu cynnig gan y Mesurau Seneddol hyn, er mwyn gwneud cais am bwerau i basio Mesurau Cynulliad.

## Edrych i'r dyfodol

Wrth i bwerau deddfu'r Cynulliad dyfu, bydd y pwyllgorau deddfwriaeth yn canolbwyntio ar sicrhau gwaith craffu trylwyr ar ddeddfwriaeth gan gynnwys cyfraniadau gan sefydliadau cymdeithas sifil a hefyd gan bobl Cymru y bydd yn effeithio arnynt.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn ceisio codi ymwybyddiaeth o swyddogaeth ddeddfu'r Cynulliad a helpu sefydliadau allanol ac unigolion sydd â diddordeb yn ein gwaith i ddeall sut i ymgysylltu â swyddogaeth y Cynulliad fel deddfwrfa – ac, yn bennaf, i nodi pryd yn ystod y broses ddeddfu y gall eu cyfraniad effeithio ar y deddfau a gaiff eu gwneud.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn edrych yn fanylach ar y pwerau a roddir i'r Cynulliad a Gweinidogion Cymru gan Ddeddfau Seneddol y DU, er mwyn sicrhau ein bod yn edrych yn eang ar ddatblygiad cyfansoddiadol Cymru.

Rydym hefyd yn gobeithio rhyngweithio mwy â phobl ifanc ac ysgolion drwy dîm addysg y Cynulliad, er mwyn casglu safbwyntiau am gyfreithiau arfaethedig i Gymru a allai effeithio'n uniongyrchol arnynt hwy neu ar eu haddysg. Byddwn hefyd yn defnyddio technoleg newydd ac arloesol yn ogystal â gweithgareddau allgymorth traddodiadol i sicrhau y gall pobl Cymru gymryd rhan gynyddol yn y broses.

Adran 5—

# Dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif

## Dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif

Mae craffu'n effeithiol ar waith llywodraeth yn ganolog i unrhyw broses ddemocrataidd, a chynhelir y gwaith hwn gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn nifer o ffyrdd, gyda staff y Cynulliad yn chwarae rhan bwysig wrth ganiatáu i Aelodau'r Cynulliad ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Er bod llawer o'r gwaith hwn yn cael ei wneud drwy'r Pwyllgorau craffu (gweler yr adran isod), bydd y Cynulliad yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif mewn nifer o ffyrdd eraill.

## Dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn y Siambr

Cynhelir y Cyfarfod Llawn yn y Siambr, siambr drafod y Senedd, ar brynhawn dydd Mawrth a dydd Mercher rhwng 13.30 a 18.00, a chaiff ei gadeirio gan y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd.

Cynhaliwyd 71 Cyfarfod Llawn rhwng mis Ebrill 2008 a mis Mawrth 2009.

## Cwestiynau'r Cynulliad

Un o'r prif ffyrdd y gall Aelodau'r Cynulliad ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yw trwy **gwestiynau'r Cynulliad**, a gellir eu defnyddio i gael gwybodaeth neu i bwyso am weithredu. Ceir dau fath gwahanol o gwestiynau, sef cwestiynau llafar a chwestiynau ysgrifenedig.

Gall Aelodau ofyn **cwestiynau llafar** yn uniongyrchol i Brif Weinidog Cymru a Gweinidogion eraill Cymru. Gofynnir cwestiynau i Brif Weinidog Cymru ar ddydd Mawrth a chaiff cwestiynau eraill eu rhoi gerbron y Gweinidogion eraill a'r Comisiwn ar ddydd Mawrth a dydd Mercher.

Yn ystod y cyfnodau hyn, dewisir 15 cwestiwn ar hap mewn cymysgiad awtomatig a gynhelir ar ran y Llywydd. Yna, caiff Aelodau'r cyfle i ofyn cwestiynau atodol heb rybudd.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, cyflwynwyd cyfanswm o **4,990** o gwestiynau llafar. Ceir rhestr isod yn nodi i bwy y gofynnwyd y cwestiynau hyn:

| | **Nifer y cwestiynau llafar a gyflwynwyd** |
|---|---|
| Prif Weinidog Cymru | 1,046 |
| Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 585 |
| Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth | 557 |
| Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau | 538 |
| Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai | 503 |
| Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol | 465 |
| Y Gweinidog dros Dreftadaeth | 438 |
| Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cymdeithasol | 416 |
| Y Gweinidog dros Faterion Gwledig | 398 |
| Y Cwnsler Cyffredinol | 26 |
| Comisiwn y Cynulliad | 18 |

Ar ôl y cwestiynau llafar, gall y Llywydd ganiatáu amser ar gyfer unrhyw **gwestiynau brys y Cynulliad** na roddir rhybudd yn eu cylch ac sydd o bwys cyhoeddus brys. Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, gofynnwyd **chwe** chwestiwn brys ar bynciau a oedd yn amrywio o golli swyddi yng Nghymru i ddatblygu ffermydd gwynt.

Gellir cyflwyno **cwestiynau ysgrifenedig** unrhyw bryd a chânt eu hateb yn ysgrifenedig. Caiff unrhyw gwestiwn llafar na chaiff ei ofyn o fewn y cyfnod penodedig hefyd ei ateb yn ysgrifenedig a bydd yn ymddangos yng Nghofnod y Trafodion. Cyflwynwyd **2,242** o gwestiynau ysgrifenedig y Cynulliad yn ystod y cyfnod hwn.

## Pwyllgorau sy'n dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif

Fel rhan o'u rôl yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, bydd Pwyllgorau'r Cynulliad yn edrych yn fanwl ar faterion fel sut y mae Gweinidogion Cymru yn gwario arian cyhoeddus a pha mor effeithiol y mae polisïau'n bodloni amcanion. Yn gryno, mae Pwyllgorau craffu'r Cynulliad Cenedlaethol yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn atebol am ei gweithrediadau, a hynny ar ran pobl Cymru.

Bydd Pwyllgorau yn argymell ffyrdd y gall polisïau Llywodraeth Cymru fod yn fwy cadarn a'i gwariant fod yn fwy effeithiol, effeithlon a darbodus. Bydd Pwyllgorau hefyd yn gweithio gydag unigolion a sefydliadau mewn ffordd ragweithiol ac arloesol, a rheini'n unigolion a sefydliadau sy'n gallu mynegi safbwyntiau a phrofiadau pobl Cymru.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Cynulliad 257 o gyfarfodydd craffu nad ydynt yn rhai deddfwriaethol.

## Helpu Aelodau'r Cynulliad i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif

Mae **Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau** yn darparu gwasanaethau ymchwil a gwybodaeth diduedd, annibynnol ac arbenigol er mwyn cynorthwyo Aelodau'r Cynulliad ym mhob agwedd ar eu gwaith fel cynrychiolwyr etholedig ac er mwyn sicrhau gwaith craffu a deddfwriaeth o'r ansawdd gorau.

Yn ystod 2008/09, darparwyd cyngor a chymorth i Aelodau'r Cynulliad ar ffurf gwaith ymchwil a gwybodaeth, a hynny mewn amryw o feysydd: drwy wasanaeth ymchwil unigol, drwy gynhyrchu ymchwil rhagweithiol i lywio dadl a thrwy roi cymorth a chyngor i Aelodau'r Cynulliad ar ffurf ymchwil wrth iddynt gynnal gwaith craffu a gwneud cyfreithiau.

Yn ystod y flwyddyn, cynhyrchwyd 3,593 darn o waith ysgrifenedig gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, gan cynnwys 3,428 o ymatebion i ymholiadau unigol a 579 o ddarnau o waith ymchwil a oedd yn sail i waith Aelodau'r Cynulliad wrth iddynt naill ai ddwyn Gweinidogion Cymru i gyfrif mewn Pwyllgorau craffu neu wrth iddynt wneud cyfreithiau i Gymru mewn Pwyllgorau deddfwriaeth.



## Cynnwys pobl Cymru wrth ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif

Fel rhan o ymrwymiad y Cynulliad i sicrhau bod safbwyntiau pobl Cymru yn sail i'n holl waith, yn cynnwys dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, ymgymrodd **y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol** â ffyrdd arloesol o gynnwys y cyhoedd yn ei ymchwiliad ar ganiatâd tybiedig i roi organau yng Nghymru.

Yn ogystal â fforymau trafod ar-lein ar wefan y Cynulliad, lluniwyd dau holiadur byr i'w defnyddio mewn ysgolion ac yn adeiladau'r Cynulliad Cenedlaethol ac roedd hefyd modd pleidleisio ar y mater hwn ar-lein. Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau oedd yn gyfrifol am lunio'r holiadur, a bu'n gweithio'n agos â thîm Cyfathrebu Allanol a thîm Addysg y Cynulliad i weithredu'r prosiect. Cafodd tua 900 o holiaduron eu dychwelyd a'u dadansoddi, a defnyddiwyd y sylwadau ansoddol a wnaed ar yr holiaduron i lywio corff yr adroddiad a chafodd y dadansoddiadau hyn eu cynnwys mewn Atodiad i'r adroddiad.

Arweiniodd cynllun deisebu'r Cynulliad Cenedlaethol at ymgynghoriad proffil uchel arall i herio polisïau Llywodraeth y Cynulliad. Roedd menter y BBC "If I ruled the world" yn amlygu pryderon ynghylch defnyddio bagiau plastig yng Nghymru. Amlygwyd y mater hwn gan gyfranogwr a benderfynodd gyflwyno deiseb ar-lein i'r Cynulliad, yn awgrymu y dylid codi ffi ar gyfer pob bag plastig yng Nghymru.

Yn dilyn hyn, cyfarfu'r **Pwyllgor Cynaliadwyedd** ag amrywiaeth o bartïon eraill sydd â diddordeb, o gynhyrchwyr bagiau plastig i archfarchnadoedd mawr, ac ymwelwyd hefyd â'r Iwerddon lle y mae ffi eisoes wedi'i godi ar fagiau plastig. Cynhyrchodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn argymell y dylid codi ffi ar bob bag plastig yng Nghymru, ac ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar hyn.

Ar ddechrau'r ymchwiliad i gynhyrchu a hybu bwyd Cymreig ym mis Ionawr, cynhaliodd **yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig** drafodaeth â rhanddeiliaid allweddol. Roedd y Cadeirydd yn awyddus i roi'r gorau i'r fformat mwy ffurfiol ar gyfer cyfarfodydd er mwyn ceisio deall yn well y materion gwirioneddol y mae'r diwydiant bwyd yn eu hwynebu yng Nghymru, ac felly cytunwyd mai'r bobl oedd yn cymryd rhan yn y cyfarfod oedd yn gyfrifol am lunio'r agenda o ran y materion roeddent am eu codi.

Cyn hynny, cynhaliodd **yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig** ymchwiliad i ad-drefnu ysgolion yng nghefn gwlad Cymru, a oedd yn deillio o ddeiseb gan grŵp o rieni ym Mhowys. Roedd yr ymchwiliad hwn yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â'r addysg a ddarperir mewn ysgolion cynradd gwledig, fel y materion cymdeithasol ac addysgol sy'n gysylltiedig ag ad-drefnu ysgolion cynradd ac effaith hyn ar gymunedau. Bu hefyd yn ystyried digonolrwydd y polisïau a'r canllawiau presennol sy'n mynd i'r afael â'r materion ehangach sy'n gysylltiedig ag ad-drefnu ysgolion cynradd gwledig a rôl Estyn yn y cyd-destun hwn.

Penderfynodd **y Pwyllgor Menter a Dysgu** weithio'n anffurfiol er mwyn cynnal ymchwiliad i'r cymorth sydd ar gael i bobl â dyslecsia yng Nghymru. Roedd y Pwyllgor am roi dinasyddion Cymru wrth wraidd ei waith craffu ac felly cyfarfu â phlant â dyslecsia a'u teuluoedd yn ystod bore coffi anffurfiol er mwyn rhoi cyfle iddynt fynegi eu barn yn agored i aelodau'r Pwyllgor. Roedd hwn hefyd yn gyfle i aelodau'r Pwyllgor glywed tystiolaeth yn uniongyrchol gan y rheini â dyslecsia o ran y rhwystrau y maent hwy a'u teuluoedd yn eu hwynebu'n ddyddiol.

Roedd tua 25 o bobl yn bresennol ym mhob bore coffi, a nodwyd fod y sefyllfa hon o fudd i rieni'r plant gan ei fod yn gyfle iddynt fynegi eu pryderon i aelodau'r Pwyllgor a cheisio cyngor gan amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol yn y maes.

Wrth ymchwilio i wasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc, cyfarfu aelodau o'r **Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc** â phobl ifanc o amrywiaeth eang o oedrannau a chefndir, a hynny mewn saith lleoliad yng Nghymru. Roeddent am sicrhau bod y trafodaethau'n cael eu cynnal mewn amgylchedd lle byddai plant a phobl ifanc yn teimlo'n gyfforddus ac yn gallu siarad am faterion anodd neu sensitif heb deimlo'n swil.

Cafodd y canfyddiadau eu bwydo yn ôl i'r Pwyllgor a chafodd y bobl ifanc a gymerodd ran eu gwahodd i lansiad adroddiad y Pwyllgor er mwyn gweld pa wahaniaeth roedd eu sylwadau wedi'i gael ar waith y Cynulliad.

Ar ôl i etholwyr fynegi pryderon i Aelodau'r Cynulliad, cynhaliodd **y Pwyllgor Cyllid** ymchwiliad byr ym mis Mai 2008 i edrych ar oblygiadau ariannol y Cyfnod Sylfaen, a fyddai'n cynnig ffordd newydd ac arloesol o ddarparu addysg i blant tair i saith oed. Yn dilyn ymchwiliad y Pwyllgor, newidiwyd y ffordd o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen i ffordd fwy cyfnodol, a hynny er mwyn gallu cyflawni'r polisi yn unol â lefel yr adnoddau a neilltuir ar ei gyfer.

Fel rhan o'i ymchwiliad i faterion sy'n effeithio ar weithwyr mudol yng Nghymru, a'r cymunedau y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt, ymwelodd **y Pwyllgor Cyfle Cyfartal** â chanolfan eirioli a chyngor ar gyfer gweithwyr mudol yn Wrecsam. Cyfarfuwyd â phobl hŷn yng ngogledd a gorllewin Cymru er mwyn cael gwybodaeth uniongyrchol am brofiadau pobl fel rhan o'i ymchwiliad i wasanaethau addasu a chynnal a chadw cartrefi ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru.

Yn ystod ei ymchwiliad i rianta yng Nghymru, bu'r **Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc** yn trafod y materion a godwyd o'i ymchwiliad â thua 30 o rieni a gyfarfu â hwy yn y Senedd ac yn sir y Fflint. Cyn y cyfarfod, rhoddwyd gwybodaeth i'r rhieni am y Pwyllgor a'r gwaith a wnaeth ar yr ymchwiliad hwn. Cyfarfu'r rhieni mewn grwpiau bach gydag aelod o'r Pwyllgor a byddai'r aelod hwnnw wedyn yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor cyfan ar y syniadau a drafodwyd. Dywedodd yr aelodau fod y dystiolaeth a ddarparwyd gan rieni yn y digwyddiadau hyn wedi bod o fudd dirfawr i'w hadroddiad terfynol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad eang ar gyfer ymchwiliad **y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant** i gam-drin domestig a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael yng Nghymru a chasglwyd dystiolaeth gan unigolion sydd wedi goroesi cam-drin domestig. Roedd rhai o'r bobl yr ymgynghorwyd â hwy yn byw mewn noddfeydd a rhoesant ganiatâd i aelodau'r Pwyllgor fynd i ymweld â hwy er mwyn rhoi cyfle iddynt fynegi barn. Roedd cwmpas eang ymchwiliad y Pwyllgor yn caniatáu iddynt ymchwilio i gryfderau a gwendidau'r strategaeth trais domestig presennol a gwneud argymhellion cadarn ynghylch beth arall sydd angen ei wneud.

Bu'r **Is-bwyllgor Darlledu** yn canolbwyntio ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bu hefyd yn adolygu effaith bosibl y newid i'r digidol ar fywyd yng Nghymru. Sefydlwyd y Pwyllgor yn ystod tymor yr haf a daeth i ben ar 18 Gorffennaf 2008 ar ôl cyhoeddi ei adroddiad. Cafwyd cyfraniadau gan ddarlledwyr yng Nghymru a'r DU ac arweiniodd hyn at adroddiad cynhwysfawr a gafodd cyhoeddusrwydd sylweddol yng Nghymru a thu hwnt. Cafodd y gwaith hwn ei barhau gan y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, a chyflwynodd adroddiad ar ei ganfyddiadau ym mis Mai 2009.

Mae'r **Pwyllgor Archwilio** yn hyrwyddo'r ffaith y caiff Cymru ei llywodraethu mewn ffordd effeithiol ac effeithlon ac mae'n ystyried y ffordd y caiff polisïau Llywodraeth Cymru eu gweithredu er mwyn sicrhau gwerth am arian. Eleni, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar faterion yn ymwneud ag iechyd a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar bobl ledled Cymru. Ym mis Mai, cyhoeddodd adroddiad ar leihau nifer yr heintiau a geir drwy gysylltiad â'r system gofal iechyd yng Nghymru, ac ym mis Hydref 2008, cyflwynodd y Pwyllgor adroddiad ar Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Yn sgil ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad, galwodd y Pwyllgor ar y Swyddog Cyfrifyddu i roi rhagor o dystiolaeth a lansiodd ymchwiliad pellach i'r materion hyn gan nad oedd yn teimlo fod digon o gynnydd wedi'i wneud.

## Edrych i'r dyfodol

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi dangos y manteision sy'n gysylltiedig â chynyddu ymgysylltiad yng ngwaith y Cynulliad, a byddwn yn parhau i roi pwyslais cryf ar nod strategol y Cynulliad o gynyddu cyfranogiad yn y broses ddemocrataidd.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i edrych am ffyrdd hyblyg ac arloesol o wneud hyn. Er enghraifft, mae bws allgymorth y Cynulliad yn rhoi cyfle i bobl wneud sylwadau ar waith y Cynulliad ar fideo a hefyd yn cynnig cyfle i gynnal cyfarfodydd mewn gwahanol rannau o Gymru i gasglu tystiolaeth ar gyfer ymchwiliadau gan bobl yr effeithir arnynt gan faterion gwahanol. Felly, gellir casglu nodiadau o'r cyfarfodydd yn ogystal â'r dystiolaeth fideo a'u dangos i Bwyllgor mewn cyfarfod ffurfiol a'u defnyddio fel tystiolaeth ffurfiol.

Byddwn hefyd yn defnyddio cyfraniadau fideo pobl, er enghraifft darnau o ffilm ar ffonau symudol a ffotograffau sy'n adlewyrchu eu profiad o unrhyw faterion y mae Pwyllgor yn eu trafod ac y gellir eu defnyddio ar wefan y Cynulliad yn ogystal â'u defnyddio fel tystiolaeth ac enghreifftiau yn adroddiad terfynol yr ymchwiliad.

Bydd Pwyllgorau'r Cynulliad hefyd yn datblygu'r syniad o grwpiau cyfeirio rhithwir a gwirioneddol ymhellach, lle y gallai grwpiau cyfeirio rhithwir o randdeiliaid allweddol helpu i ganfod materion yn gyflym. Gellid defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd am y math hwn o grŵp i graffu ar waith Gweinidogion ar draws portffolios ar y materion dan sylw, o bosibl drwy ymchwiliadau byr i'r materion hynny.



Adran 6—

# Cyfrifon adnoddau

# CYFRIFON ADNODDAU

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Tudalen 49 | Sylwadau Rheoli |
| Tudalen 55 | Adroddiad Taliadau |
| Tudalen 62 | Datganiad am Gyfrifoldebau'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu |
| Tudalen 63 | Datganiad ar Reolaeth Fewnol |
| Tudalen 69 | Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Tudalen 71 | Datganiad Cyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Tudalen 72 | Datganiad Costau Gweithredu |
| | Datganiad Enillion a Cholledion Cydnabyddedig |
| Tudalen 73 | Mantolen |
| Tudalen 74 | Datganiad Llif Arian |
| Tudalen 75 | Datganiad Costau Gweithredu yn ôl Nodau ac Amcanion |
| Tudalen 76 | Nodiadau i'r  Cyfrifon Adnoddau |

## SYLWADAU RHEOLI

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â Chyfarwyddyd y Trysorlys a gyhoeddwyd o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### Y cefndir hanesyddol a Statudol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd sy'n cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Sefydlwyd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Comisiwn) ym mis Mai 2007 o dan Adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006), ac mae ganddo ddyletswydd i sicrhau bod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau i gyflawni ei ddiben. Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd, a phedwar Aelod arall o Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) a etholwyd gan y Cynulliad. Clerc y Cynulliad (a benodwyd o dan Adran 26 o Ddeddf 2006) yw Prif Weithredwr y Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu. Cyfeirir at y Prif Weithredwr a'r staff eraill a benodir o dan baragraff 3 yn Atodlen 2 i Ddeddf 2006 fel "staff y Cynulliad". Mae'r Comisiwn yn annibynnol ar Weinidogion Llywodraeth Cymru (Gweinidogion Cymru).

Mae'r Comisiwn yn darparu'r seilwaith (gan gynnwys y Senedd a Thŷ Hywel, swyddfeydd y Cynulliad) a'r cyflogau a'r lwfansau sy'n galluogi Aelodau i ymgymryd â'u dyletswyddau yn y Cynulliad ac yn eu swyddfeydd lleol. Mae'n darparu cyfleusterau a staff i ganiatáu i'r Cynulliad a'i Bwyllgorau gyfarfod, ac mae'n codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r broses ddemocrataidd a'u hannog i gymryd rhan ynddi.

Cewch ragor o wybodaeth am waith y Comisiwn yn yr Adroddiad Blynyddol a gyhoeddir ar y cyd â'r cyfrifon hyn ar www.assemblywales.org a www.cynulliadcymru.org

### Y Comisiwn

| *Y Comisiynwyr yn 2008-09 oedd:* | *Dyddiad penodi i'r Comisiwn:* |
|---|---|
| Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Elis-Thomas AC, y Llywydd | 9 Mai 2007 |
| William Graham AC | 6 Mehefin 2007 |
| Lorraine Barrett AC | 6 Mehefin 2007 |
| Peter Black AC | 6 Mehefin 2007 |
| Christopher Franks AC | 18 Medi 2007 |

Mae'r Comisiwn wedi cytuno ar drefniadau portffolio sy'n golygu bod gan y gwahanol Gomisiynwyr gyfrifoldeb dros faterion penodol, fel a ganlyn:

**Yr Arglwydd Elis Thomas AC – Cadeirydd y Comisiwn** – gyda chyfrifoldeb arbennig dros y panel adolygu annibynnol sy'n edrych ar y cymorth ariannol a roddir i Aelodau'r Cynulliad; annog pobl i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd; arweinyddiaeth ragorol; datblygu pwerau deddfu'r Cynulliad yn y dyfodol a chysylltiadau allanol.

**Lorraine Barret AC – Comisiynydd y Cynulliad Cynaliadwy** – mae'r portffolio hwn yn cynnwys cyfrifoldeb dros iaith; yr amgylchedd a niwtraliaeth carbon; caffael cynaliadwy a rheoli'r ystâd.

**Peter Black AC – Comisiynydd y Cynulliad a'r Dinesydd** – mae'r portffolio hwn yn cynnwys ystyried safon y prosesau craffu a deddfu; cyfathrebu allanol; TGCh; addysg dinasyddiaeth; materion cyfreithiol a Rhyddid Gwybodaeth.

**Christopher Franks AC** – **Comisiynydd y Cynulliad sy'n Gwella –** mae'r portffolio hwn yn cynnwys gwella gwasanaethau i Aelodau a dinasyddion; cynnwys rhanddeiliaid; cynllunio strategol ac ystyried gwerth am arian.

**William Graham AC – Comisiynydd Adnoddau'r Cynulliad** – mae'r portffolio hwn yn cynnwys rheoli asedau'r Cynulliad; pobl y Cynulliad (gan gynnwys staff, contractwyr a gwasanaethau a ddarperir i gynorthwyo Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad); cyllideb y Comisiwn; cyflogau a lwfansau'r Aelodau; effeithlonrwydd a llywodraethu da.

**Yr uwch reolwyr**

Dyma'r uwch reolwyr a gyflogwyd gan y Comisiwn yn ystod y flwyddyn hyd at y dyddiad y llofnodwyd y Cyfrifon:

| | |
|---|---|
| Claire Clancy | Prif Weithredwr, Clerc y Cynulliad a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu |
| Dianne Bevan | Prif Swyddog Gweithredu |
| Adrian Crompton | Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad |
| Keith Bush | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol |

Mae'r Adroddiad Taliadau yn y cyfrifon hyn yn cynnwys gwybodaeth am gyflogau a hawliau pensiwn yr unigolion a enwir, ynghyd â'u hawliadau teithio a chynhaliaeth.

Caiff yr uwch reolwyr eu penodi i'w swyddi'n barhaol.

**Adolygiad o brif weithgareddau'r Comisiwn**

Prif weithgareddau'r Comisiwn a'i staff yn ystod y flwyddyn oedd hybu gwaith a swyddogaethau'r Cynulliad o dan Ddeddf 2006. Diben y Comisiwn yw gwneud y Cynulliad yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder pobl Cymru. At y diben hwn, lluniwyd

Strategaeth ar gyfer y Trydydd Cynulliad 2007-2011, ac iddi bum nod strategol a gwerthoedd gweithio cytunedig. Mae'r nodau hyn fel a ganlyn:

- Byddwn yn hyrwyddo datganoli ac yn annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses;
- Byddwn yn dangos undod ac arweiniad ac yn ymateb yn feiddgar i newidiadau cyfansoddiadol;
- Byddwn yn dangos parch, cywirdeb a llywodraethu da ym mhob agwedd ar ein gwaith;
- Byddwn yn gweithio'n gynaliadwy;
- Byddwn yn gofalu bod gan y Cynulliad y gwasanaeth gorau, a gaiff ei ddarparu yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Cewch ragor o fanylion am nodau, gwerthoedd a phrif weithgareddau'r Comisiwn yn yr Adroddiad Blynyddol a gyhoeddir ar y cyd â'r cyfrifon hyn yn www.assemblywales.org a www.cynulliadcymru.org

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd y Comisiwn yn cyflogi'r hyn sy'n cyfateb i 341.9 aelod o staff amser llawn (303.6 yn 2007-08), a secondiwyd yr hyn sy'n cyfateb i 4.4 aelod o staff amser llawn o sefydliadau eraill (8.8 yn 2007-08). Cyfradd gyffredinol yr absenoldeb salwch dros y flwyddyn oedd 4.2% (4.7% yn 2007-08), a hynny yn erbyn targed ar gyfer y flwyddyn o 4.1%.

Ar 5 Tachwedd 2007, penododd y Comisiwn y pedwar cynghorwr annibynnol a ganlyn, pob un am gyfnod o 3 blynedd:

| | |
|---|---|
| Mair Barnes | Tim Knighton |
| Richard Calvert | Yr Athro Robert Pickard |

Cewch ragor o wybodaeth am gefndir am y cynghorwyr annibynnol yn yr Adroddiad Blynyddol a gyhoeddir ar y cyd â'r cyfrifon hyn yn www.assemblywales.org a www.cynulliadcymru.org

**Adolygiad o'r flwyddyn ariannol**

£44 miliwn oedd yr alldro adnoddau net ar gyfer 2008-09, a gwariwyd £12.4 miliwn ohono ar gyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad (heb gynnwys taliadau i'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd), gan gynnwys lwfansau ar gyfer staff ac adeiladau yn eu hetholaethau/hardaloedd i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau. £12.2 miliwn oedd cost cyflogi staff y Comisiwn a chostau cysylltiedig, a gwariwyd tua £19.3 miliwn ar adeiladau, TGCh a chostau eraill yn ymwneud â rhedeg y Comisiwn; cafwyd £0.1 miliwn o incwm ar ffurf rhent a drwy werthu nwyddau yn Siop y Cynulliad. Arweiniodd hyn at alldro adnoddau net a oedd 4.7% yn is na'r gyllideb adnoddau net a gymeradwywyd, sef £46.2 miliwn (£0.7 miliwn a 1.6% o danwariant yn 2007-08), a gellir priodoli hyn yn bennaf i wariant is na'r disgwyl ar gyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad, cyflogau staff, costau dibrisio asedau a gwariant cyfalaf i greu asedau sefydlog. Gwrthbwyswyd y tanwariant hwn yn rhannol gan wariant uwch ar brosiectau i wella cynaliadwyedd a lleihau effaith garbon ystad y Cynulliad, ac i wella'r seilwaith TGCh. Mae rhagor o wybodaeth am yr alldro adnoddau yn Nodyn 2 sy'n cyd-fynd â'r cyfrifon hyn.

Ar 31 Mawrth 2009, cyfanswm asedau net y Comisiwn oedd £63.5 miliwn (£67.3 miliwn ar 31 Mawrth 2008).

Mae'r cyfrifon hyn hefyd yn nodi gwariant o £0.635 miliwn yng nghyswllt costau cyflogau'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Y Comisiwn sy'n talu'r cyflogau hyn ond dônt yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru. Gan hynny, nid ydynt yn cael eu cynnwys yn yr alldro adnoddau net.

Mae Cofrestr Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Aelodau'r Cynulliad yn dal i gael ei diweddaru a'i chyhoeddi ar wefan y Cynulliad.

**Datblygiadau yn y dyfodol**

Mae'n rhaid ystyried y cefndir cyllidol anodd sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus dros y blynyddoedd nesaf wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. Corff Corfforaethol cymharol newydd yw'r Cynulliad, a hwnnw'n dal i ddatblygu. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith darparu'r Cynulliad â'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau sy'n angenrheidiol er mwyn i'r Cynulliad gyflawni ei ddiben. Ond ar yr un pryd, rhaid i'r Cynulliad ddangos stiwardiaeth briodol o arian cyhoeddus drwy leihau costau a chwilio am ffyrdd o fod yn fwy effeithlon ac arbed arian. Er mwyn cael y cydbwysedd gorau rhwng y ddau beth hanfodol hyn, mae Rhaglen Newid wrthi'n cael ei sefydlu. Diben y rhaglen hon fydd blaenoriaethu prosiectau yn unol â nodau strategol y Comisiwn. Y bwriad yw goruchwylio a chydlynu rhaglenni er mwyn i'r prosesau buddsoddi, y gallu sefydliadol a'r capasiti ddod at ei gilydd i sicrhau canlyniadau i'r Cynulliad.

Mae darparu gwasanaethau i gynorthwyo gwaith deddfwriaethol, gwaith craffu a busnes arall y Cynulliad yn flaenoriaeth i'r Comisiwn. Newidiwyd strwythur y system bwyllgorau yn 2008-09 er mwyn gwella pa mor effeithlon ac effeithiol oedd honno, yn enwedig o ran craffu ar ddeddfwriaeth. Bydd y Comisiwn yn cyfarfod â'r Pwyllgor Busnes er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n cyd-fynd â datblygiadau yn y dyfodol i'r broses o reoli busnes ffurfiol y Cynulliad.

Elfen arall sy'n ymwneud â defnyddio adnoddau'n briodol yw'r pryder ymhlith y cyhoedd am y treuliau sy'n cael eu talu i wleidyddion etholedig – pryder na welwyd ei debyg o'r blaen. Ar 6 Gorffennaf 2009, cyhoeddwyd adroddiad y Panel Annibynnol ar Gymorth Ariannol i Aelodau'r Cynulliad. Panel a sefydlwyd gan y Comisiwn yn 2008 yw hwn, ac mae'r adroddiad yn gyfle i sefydlu trefniadau priodol, teg, effeithiol a thryloyw.

Yn hydref 2009, bydd cyfleusterau newydd yn agor yn y Pierhead ar gyfer hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ynghylch gwaith y Cynulliad. Mae effaith amgylcheddol ystad y Comisiwn yn dal yn elfen allweddol yn ein gwaith cynllunio. Mae'n debygol y bydd ailwampio'r gwasanaethau TGCh yn brosiect arwyddocaol iawn dros y blynyddoedd nesaf. Nod hynny yw defnyddio adnoddau'r Cynulliad mewn ffordd fwy cydlynol ac effeithlon, gan gynnwys cynyddu'r capasiti a'r gallu – fel democratiaeth ddigidol, er enghraifft.

Yn olaf, mae'r gwaith cynllunio wedi dechrau mewn perthynas â heriau gweinyddol ac ariannol etholiadau'r Cynulliad yn 2011 a'r Pedwerydd Cynulliad.

**Risgiau ac Ansicrwydd**

Mae gan y Comisiwn Fframwaith Rheoli Risgiau a Buddion i godi ymwybyddiaeth o risg, i reoli risgiau'n briodol ac i fanteisio ar gyfleoedd i wella. Cewch ragor o wybodaeth yn y Datganiad am Reolaeth Fewnol yn y cyfrifon hyn. Mae'r Comisiwn wedi sefydlu Cofrestr Asedau Gwybodaeth ac mae Fframwaith Polisi Diogelwch wrthi'n cael ei ddatblygu yn seiliedig ar Ganllawiau Swyddfa'r Cabinet ac arferion adolygu, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â diogelwch data. Ni chanfuwyd unrhyw achosion o dorri polisïau diogelwch data yn ystod 2008-09.

**Cydymffurfio â'n Dyletswyddau**

Mae gan y Comisiwn nifer o ddyletswyddau, fel cyfle cyfartal, iechyd a diogelwch, hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac ati. Cewch ragor o wybodaeth am y modd y mae'r Comisiwn yn cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn yn yr Adroddiad Blynyddol a gyhoeddir ar y cyd â'r cyfrifon hyn yn www.assemblywales.org a www.cynulliadcymru.org

**Rhwymedigaethau Pensiwn**

Mae'r modd y caiff rhwymedigaeth pensiwn eu trin a manylion y cynlluniau pensiwn perthnasol wedi'u gosod allan yn y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu yn y cyfrifon hyn ar dudalen 30, Nodyn 1.

**Y polisi yng nghyswllt Talu Cyflenwyr**

Targed perfformiad allweddol y Comisiwn ar gyfer 2008-09 oedd talu ei holl gyflenwyr o fewn 30 diwrnod ar ôl derbyn anfonebau, os nad oedd anghydfod yn eu cylch. Ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn, talwyd 98% o'r rheini'n brydlon (78% oedd cyfartaledd 2007-08) ac mae'r targed ar gyfer 2009-10 wedi'i wella gydag ymrwymiad i dalu o fewn 10 diwrnod.

**Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**

Mae gan y Comisiwn Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol sy'n cynorthwyo'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu i fonitro ac adolygu'r trefniadau llywodraethu corfforaethol, y trefniadau rheoli risg a'r system rheoli. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri chynghorwr annibynnol (un ohonynt yn cadeirio) ac un o Gomisiynwyr y Cynulliad. Yr aelodau yw William Graham AC, Richard Calvert (Cadeirydd), Tim Knighton a'r Athro Robert Pickard. Roedd gwaith y Pwyllgor yn 2008-09 yn cynnwys ystyried y cyfrifon blynyddol cyntaf a luniodd y Comisiwn ar gyfer 2007-08; rhoi cyngor am y trefniadau sicrwydd sy'n gysylltiedig â'r Datganiad am Reolaeth Fewnol; adolygu'r camau a gymerwyd i ddiogelu data; a rhoi cyngor am ddatblygu cynllun parhad busnes.

**Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol**

Mae gan y Comisiwn Bwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol sy'n cynorthwyo'r Comisiwn a'r Prif Weithredwr i sicrhau ein bod yn cyrraedd y safonau uchaf o ran cywirdeb ac atebolrwydd wrth ddefnyddio cronfeydd cyhoeddus, yn ogystal â chynorthwyo'n benodol gyda'r cyfrifoldebau dros bolisïau a systemau gwerthuso a thaliadau. Aelodau'r Pwyllgor yw Tony

Morgan, Cadeirydd Archwilio yn Geldards ac uwch bartner sydd wedi ymddeol yn PricewaterhouseCoopers, yr Athro Robert Pickard, a Tim Knighton, dau o'n cynghorwyr annibynnol. Yn ystod y flwyddyn, mae gwaith y Pwyllgor wedi cynnwys meincnodi y graddfeydd cyflog uchaf yn erbyn sefydliadau tebyg a rhoi sylwadau am yr egwyddorion posibl a fyddai'n sail i strategaeth wobrwyo.

**Archwilio**

Mae'r Cyfrifon yn cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol ag Adran 137 o Ddeddf 2006. Y gost y cytunwyd arni ar gyfer archwilio cyfrifon 2008-09 yw £63,475 (£49,250 yn 2007-08).

**Datgan Gwybodaeth sy'n Berthnasol i'r Archwiliad**

Fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, yr wyf wedi cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad ac i sicrhau bod yr archwilwyr hefyd yn ymwybodol o'r wybodaeth hon.

**Digwyddiadau ers Diwedd y Cyfnod Ariannol**

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol rhwng diwedd y cyfnod ariannol a'r dyddiad y cwblhawyd y cyfrifon hyn.

**Claire Clancy**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad** **Dyddiad: 9 Gorffennaf 2009**

# ADRODDIAD TALIADAU

## Polisi taliadau

Hyd at 3 Mai 2007, roedd cyflog sylfaenol Aelodau'r Cynulliad yn cyfateb i 76.5% o'r lefel a bennwyd ar gyfer Aelodau Seneddol. I gydnabod y cyfrifoldebau ychwanegol a roddwyd iddynt gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac yn dilyn cyngor gan banel o bedwar aelod annibynnol ac un Comisiynydd, penderfynodd y Comisiwn y dylai cyflog sylfaenol Aelodau'r Cynulliad godi i 82% o'r lefel a bennwyd ar gyfer Aelodau Seneddol, ac y dylai hyn fod yn weithredol o 4 Mai 2007 ymlaen.

Felly, ar 1 Ebrill 2007, cyflog sylfaenol blynyddol Aelodau'r Cynulliad, ac eithrio cyfraniadau Yswiriant Gwladol a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr, oedd £46,804 ac fe gododd i £50,169 ar 4 Mai 2007, i £50,692 ar 1 Tachwedd 2007, ac i £51,899 ar 1 Ebrill 2008. Dewisodd naw Aelod beidio â derbyn eu cyflogau llawn ar gyfer blwyddyn ariannol 2008-09.

Roedd gan yr Aelodau a ganlyn hawl i gyflogau blynyddol ychwanegol fel a ganlyn:

| | O 1 Ebrill 2007 | O 1 Tachwedd 2007 | O 1 Ebrill 2008 |
|---|---|---|---|
| Y Llywydd ac Arweinydd yr wrthblaid fwyaf | £40,225 | £40,645 | £40,759 |
| Y Dirprwy Lywydd | £25,301 | £25,566 | £25,637 |
| Prif Chwip yr Wrthblaid a Chomisiynwyr y Cynulliad | - | - | £11,372 |
| Arweinwyr y gwrthbleidiau ac eithrio'r fwyaf. Cadeiryddion y pwyllgorau craffu[1] a'r Pwyllgorau Cyllid ac Archwilio. | £5,873 | £5,934 | £11,372 |
| Cadeiryddion y pwyllgorau eraill[2] | - | - | £5,950 |

[1] Y pwyllgorau craffu yw Cymunedau a Diwylliant; Menter a Dysgu; Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol; Cynaliadwyedd; a 5 Pwyllgor Deddfwriaeth (a sefydlwyd ym mis Tachwedd 2008).

[2] Y pwyllgorau eraill yw Plant a Phobl Ifanc; Cyfle Cyfartal; Materion Ewropeaidd ac Allanol; Deisebau; Safonau Ymddygiad; Is-ddeddfwriaeth.

O'r rheini a oedd â hawl i gael cyflogau ychwanegol, ni wnaeth 12 Aelod dderbyn y swm llawn a oedd yn ddyledus iddynt yn 2008-09.

Nid yw'r Comisiwn yn rhoi buddion mewn nwyddau.

Mae Aelodau'r Cynulliad yn aelodau o Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a chaiff cyfrifon blynyddol eu cyhoeddi ar wahân ar gyfer y cynllun hwn ar wefan y Cynulliad, **www.cynulliadcymru.org**.

Mae'r Comisiwn yn talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru a chaiff y rhain eu datgelu mewn nodyn yng Nghyfrifon Adnoddau Cyfunol Llywodraeth Cymru, er bod y taliadau'n dod o gyfrifon adnoddau'r Comisiwn.

Ym mis Awst 2008, sefydlwyd Panel Adolygu Annibynnol gan Gomisiwn y Cynulliad i edrych ar bob agwedd ar y cymorth ariannol sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad, gan gynnwys taliadau a lwfansau ar gyfer teithio, llety, swyddfeydd etholaethol a staff cymorth. Cylch gwaith y Panel oedd:

- adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer rhoi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad a chwilio am arferion gorau;
- clywed tystiolaeth ar faterion perthnasol;
- ymgynghori â chyrff a rhanddeiliaid perthnasol;
- llunio cyfres o argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth, a'r rheini'n cynnwys egwyddorion a fydd yn creu proses deg, gyfiawn a thryloyw ar gyfer rhoi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad.

Cyhoeddodd y Panel ei adroddiad a'i argymhellion ar 6 Gorffennaf 2009.

Penodwyd pedwar cynghorwr annibynnol i'r Comisiwn ar 5 Tachwedd 2007, a hynny am gyfnod o dair blynedd. Maent yn cael tâl cydnabyddiaeth heb drefniadau pensiwn o £5,000 y flwyddyn (£7,000 y flwyddyn i Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol).

Y Comisiwn sy'n penderfynu ar dâl y Prif Weithredwr. Y Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Comisiwn, sy'n penderfynu ar dâl y tri chyfarwyddwr. Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol, sy'n cynnwys tri o'r cynghorwyr annibynnol, yn cynghori'r Prif Weithredwr a'r Comisiwn. Mae paragraff 3 yn Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau bod amodau a thelerau staff y Cynulliad yn debyg i amodau a thelerau staff Llywodraeth Cymru. Yn 2007-08, roedd tâl uwch reolwyr y Comisiwn yn cyfateb i dâl uwch weision sifil. Ers 1 Ebrill 2008, ar ôl i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ystyried y cynigion, ymgynghori a chael cytundeb y Comisiwn, crëwyd graddfa gyflog unedig i'r holl staff a gyflogir gan y Comisiwn, gan gynnwys y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr.

**Contractau gwasanaeth**

Penodir staff y Comisiwn, yn unol â thelerau ac amodau a bennir gan y Comisiwn, yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored ond maent hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer amgylchiadau lle ceir penodi heb ddilyn y drefn arferol. Mae'r egwyddorion hyn yn cyd-fynd â threfniadau'r gwasanaeth sifil. Nid yw staff yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil ond mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS)

Oni nodir yn wahanol isod, mae staff y Cynulliad y mae'r adroddiad hwn yn berthnasol iddynt, yn cael eu penodi'n benagored nes y byddant yn cyrraedd oedran pensiwn o dan Brif Gynllun

Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Yna cânt wneud cais i barhau i weithio y tu hwnt i'r oedran honno. Os terfynir eu cyflogaeth yn gynnar am unrhyw reswm ac eithrio camymddygiad, bydd yr unigolyn yn cael iawndal, fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

**Cyflogau a hawliau pensiwn**

Mae'r adrannau a ganlyn yn rhoi manylion am dâl a phensiynau deiliaid swyddi ac uwch swyddogion. Cânt eu cyflwyno yn ôl bandiau cyflog a phensiwn.

Mae gan Gomisiynwyr y Cynulliad, ac eithrio'r Llywydd, hawl i gael cyflog blynyddol o £11,372 yn ychwanegol at eu tâl am fod yn Aelodau Cynulliad. Nid yw eu manylion pensiwn wedi'u cynnwys uchod gan mai dim ond rhan o'u tâl sy'n deillio o'u swyddogaethau fel Comisiynwyr. Ni ellir gwahanu eu pensiwn cronnus a'u CETV fel Comisiynwyr oddi wrth gyfanswm y symiau a gronnir.

| Enw a theitl | Cyflog 2008/09 | Cyflog 2007/08 | Gwir gynnydd yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig yn 65 oed | Cyfanswm y pensiwn cronedig yn 65 oed a'r cyfandaliad cysylltiedig ar 31/3/09 | *CETV ar 31/3/08 | CETV ar 31/3/09 | Gwir gynnydd mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Deiliaid swyddi** | | | | | | | |
| Yr Arglwydd Elis Thomas AC – *Llywydd* | 90-95 | 90-95 | 0-2.5 | 30-35 | 651 | 685 | 7 |
| Rosemary Butler AC – *Dirprwy Lywydd* | 75-80 | 70-75 | 0-2.5 | 15-20 | 255 | 284 | 21 |
| Uwch Reolwyr | | | | | | | |
| **Enw a theitl** | **Cyflog 2008/09** | **Cyflog 2007/08** | **Gwir gynnydd yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig yn 60 oed** | **Cyfanswm y pensiwn cronedig yn 60 oed a'r cyfandaliad cysylltiedig ar 31/3/09** | ***CETV ar31/3/08** | **CETV ar31/3/09** | **Gwir gynnydd mewn CETV** |
| Claire Clancy – *Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad* | 140-145 | 120-125 | 2.5-5.0 ynghyd â chyfandaliad o 10-15 | 45-50 ynghyd â chyfandaliad o 145-150 | 747 | 896 | 80 |
| Dianne Bevan – *Prif Swyddog Gweithredu* | 115-120 | 105-110 | 2.5-5.0 | 45-50 | 613 | 712 | 41 |
| Adrian Crompton – *Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad* | 95-100 | 80-85 | 2.5-5.0 ynghyd â chyfandaliad o 5-10 | 20-25 ynghyd â chyfandaliad o 65-70 | 268 | 332 | 38 |
| Keith Bush – *Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol* | 105-110 | 50-55 (100-105 ar gyfer y flwyddyn lawn ) | 0-2.5 | 10-15 | 212 | 274 | 41 |

*Mae'r ffigurau hyn yn wahanol i'r ffigurau terfynol yng nghyfrifon y llynedd. Mae hyn gan fod y ffactorau CETV wedi cael eu diweddaru i gydymffurfio â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008

**Cyflogau**

Y cyflogau yn y tabl uchod yw'r swm a enillwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ac maent yn cynnwys yr holl daliadau taladwy. Nid ydynt yn cynnwys Yswiriant Gwladol na chyfraniadau pensiwn. O fis Mai 2007 ymlaen talwyd costau cyflogau'r Llywydd a'r Is-lywydd yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

**Gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod (CETV)**

Gwerth cyfalafol buddiannau'r cynllun pensiwn a gronnwyd gan Aelod ar adeg benodol ac a aseswyd gan actwari yw CETV. Y buddiannau a gaiff eu prisio yw buddiannau cronedig yr Aelod ac unrhyw bensiwn amodol a ddelir gan eu priod sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr Aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd eisoes yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn nodi'r buddiannau a gronnwyd gan yr unigolyn ar ôl dod yn aelod llawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r broses datgelu yn berthnasol iddo. Mae ffigurau CETV yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall a drosglwyddwyd gan yr unigolyn i gynllun newydd; buddiant y mae'r cynllun wedi derbyn taliad trosglwyddo ar ei gyfer sy'n gymesur â'r rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol a ysgwyddir. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol a gronnodd aelod drwy brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar ei draul ei hun. Cyfrifir CETV o fewn y fframwaith a bennir gan y Sefydliad a'r Gyfadran Actiwarïaid ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir buddion pensiwn.

**Gwir gynnydd mewn CETV**

Mae'r gwir gynnydd mewn CETV yn adlewyrchu'r cynnydd a ariennir, i bob pwrpas, gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig sy'n seiliedig ar chwyddiant, cyfraniadau sy'n cael eu talu gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau a diwedd y cyfnod ariannol. Cafodd y ffactorau a ddefnyddir i gyfrifo'r CETV ar gyfer Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil eu diwygio yn ystod 2008-09 yn unol â'r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod ddyledus pan hawlir buddion pensiwn.

**Buddion mewn nwyddau**

Ni thalwyd unrhyw fuddion mewn nwyddau i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, y Cyfarwyddwyr, y Llywydd na'r Dirprwy Lywydd.

**Teithio a chynhaliaeth**

Yn ystod y flwyddyn, roedd y taliadau a wnaed i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth a threuliau eraill fel a ganlyn:

| | Claire Clancy *Prif Weithredwr a Chlerc* | Dianne Bevan *Prif Swyddog Gweithredu* | Adrian Crompton *Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad* | Keith Bush *Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol* |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| Milltiroedd ceir | 516 | 56 | 46 | - |
| Llogi tacsis/ceir | 89 | 32 | 22 | 51 |
| Teithiau awyr | - | - | - | - |
| Trafnidiaeth gyhoeddus | 12 | 20 | 8 | - |
| Llety | 168 | 265 | 390 | 229 |
| Cynhaliaeth/treuliau | 50 | 136 | 24 | - |
| **CYFANSWM** | **835** | **509** | **490** | **280** |

**Pensiynau**

Darperir buddion pensiwn i staff y Cynulliad drwy drefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddion diffiniedig amlgyflogwr nas ariennir ac felly ni all y Comisiwn nodi cyfran yr asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol sy'n berthnasol iddo. Cynhaliodd actiwari'r cynllun brisiad llawn o'r cynllun ar 31 Mawrth 2007. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk). Yn ystod 2008-09, roedd cyfraniadau'r cyflogwyr ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 17.1% i 25.5% o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog (nad ydynt wedi newid ers cyfraddau 2007-08). Bydd Actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn proses brisio lawn. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i dalu cost y buddion a gronnwyd yn ystod 2008-09 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, yn hytrach na'r buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i'r rheini sydd eisoes yn derbyn pensiwn.

Ers 1 Hydref 2002, rhaid i gyflogeion ymuno ag un o bedwar cynllun buddion 'cynllun terfynol' diffiniedig statudol (clasurol, premiwm, clasurol a mwy a nuvos). Ni chaiff y cynlluniau eu hariannu a chaiff costau'r buddiannau eu talu gan arian y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau clasurol, premiwm a chlasurol a mwy eu cynyddu'n flynyddol yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Manwerthu. Roedd y rheini a ymunodd o'r newydd rhwng 1 Hydref 2002 a 29 Gorffennaf 2007 cael dewis bod yn aelod o'r cynllun premiwm neu ymuno â threfniant cyfranddeiliaid 'prynu arian' o ansawdd da sy'n cynnwys cyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth). Gall y rheini a ymunodd ar 30 Gorffennaf 2007 neu wedyn ymuno â'r cynllun nuvos neu gallant ddewis cyfrif pensiwn partneriaeth.

Mae cyflogeion yn talu cyfraniadau ar gyfradd o 1.5% o enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun clasurol a 3.5% ar gyfer y cynllun premiwm, clasurol a mwy a nuvos. Mae buddiannau yn y cynllun clasurol yn crynhoi ar gyfradd o 1/80fed o gyflog pensiynadwy ar gyfer bob

blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn adeg ymddeol. Mae buddiannau'n crynhoi ar gyfradd o 1/60fed o gyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth yn y cynllun premiwm. Yn wahanol i'r cynllun clasurol, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig ond gall aelodau roi rhan o'u pensiwn heibio i ddarparu cyfandaliad. Mae'r cynllun clasurol a mwy yn ei hanfod yn amrywiad o'r cynllun premiwm, ond caiff buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 eu cyfrifo'n fras fel y cynllun clasurol. Cynllun cyfartaledd gyrfa yw Nuvos gyda buddion yn cronni ar gyfradd o 2.3 y cant o'r cyflog bob blwyddyn, a chaiff ei ailbrisio'n unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu ar ddiwedd bob blwyddyn.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol o rhwng 7% a 15% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai. Nid oes angen i'r cyflogai gyfrannu ond os bydd yn cyfrannu, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% pellach o gyflog pensiynadwy i gynnwys cost yswiriant buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Cewch ragor o fanylion am drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan **www.civilservice-pensions.gov.uk**

Mae Aelodau'r Cynulliad yn perthyn i Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cynllun buddion diffiniedig yw hwn sy'n berthnasol i gyfanswm hawliau cyflog aelodau gan gynnwys y symiau a gaiff eu talu i ddeiliaid swyddi a Gweinidogion Cymru. Caiff y Cynllun ei weinyddu gan Ymddiriedolwyr, ac mae'n gwbl annibynnol ar Gomisiwn y Cynulliad. Mae cyfrifon y Cynllun i'w gweld ar **www.cynulliadcymru.org**

Prif fuddion y cynllun yw pensiwn o naill ai 1/50fed neu 1/40fed o gyflog terfynol yr aelod am bob blwyddyn o wasanaeth pan fydd yn ymddeol yn 65 oed. Mae'r pensiwn yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Manwerthu. Mae aelodau'n cyfrannu swm sy'n cyfateb i 6% o gyfanswm eu cyflog (gan gynnwys unrhyw elfennau ychwanegol y mae gan ddeiliaid swyddi a Gweinidogion Cymru hawl iddynt) i gael cyfradd groniadau o 1/50fed, neu 10% o gyfanswm eu cyflog i gael cyfradd groniadau o 1/40fed, gyda'r Comisiwn yn cyfrannu swm sy'n cyfateb i 23% o gyfanswm eu cyflog (yn codi i 23.8% o 1 Ebrill 2008).

**Claire Clancy**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad** **Dyddiad: 9 Gorffennaf 2009**

## DATGANIAD AM GYFRIFOLDEBAU'R COMISIWN A'R PRIF SWYDDOG CYFRIFYDDU

Mae'r Prif Weithredwr a'r Clerc wedi paratoi datganiad o gyfrifon yn unol â chyfarwyddyd y Trysorlys gan lynu wrth yr egwyddorion cyfrifyddu a'r gofynion datgelu sydd wedi'u gosod allan yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol. Paratowyd y Cyfrifon Adnoddau ar sail cyfrifyddu croniadau ac maent yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Comisiwn ar ddiwedd y flwyddyn, yr alldro adnoddau net, yr adnoddau a ddyrannwyd i gyflawni amcanion, y datganiad costau gweithredu, enillion a cholledion cydnabyddedig a llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'r Prif Weithredwr a'r Clerc wedi:

- Cydymffurfio â chyfarwyddyd y Trysorlys mewn perthynas â chyfrifon;
- Cydymffurfio â'r gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu gwybodaeth, ac wedi glynu'n gyson wrth yr egwyddorion cyfrifyddu priodol;
- Dod i benderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol a gofalus;
- Nodi a yw safonau cyfrifyddu priodol wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw eithriadau a gaiff eu datgelu a'u hegluro yn y cyfrifon; a
- Pharatoi'r cyfrifon ar ffurf proses barhaus.

O dan Adran 138 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn. Mae cyfrifoldebau perthnasol y Prif Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros gywirdeb a chysondeb yng nghyllid y Comisiwn a dros gadw cofnod priodol, wedi'u gosod allan mewn memorandwm a gyhoeddwyd gan y Trysorlys.

**Claire Clancy**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**

**Dyddiad: 9 Gorffennaf 2009**

## DATGANIAD AM REOLAETH FEWNOL

### Cwmpas y cyfrifoldeb

Fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n galluogi Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyflawni ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion gan hefyd ddiogelu'r arian a'r asedau cyhoeddus y mae gennyf gyfrifoldeb personol drostynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd arnaf gan y Trysorlys. Mae'n ddyletswydd arnaf i, fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, i gyfuno'r cyfrifoldebau hyn â'm cyfrifoldeb i wasanaethu'r Comisiynwyr yr wyf yn atebol iddynt ac sy'n rhoi awdurdod i mi.

Mae'r Comisiwn yn gosod allan nodau, amcanion, polisïau a gwerthoedd y sefydliad ac, yn unol â darpariaethau paragraff 7 yn Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, y mae wedi dirprwyo'i swyddogaethau, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros reoli staff, i mi fel Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, yn amodol ar rai eithriadau ac amodau penodol. Mae gwaith y Cynulliad a'r Comisiwn yn ennyn cryn dipyn o ddiddordeb ymhlith y cyhoedd a'r cyfryngau, ac mae iddo oblygiadau gwleidyddol pellgyrhaeddol.

Yn ystod 2008-09, cefais i, fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, gyngor gan y canlynol:

- Comisiwn y Cynulliad, o ran polisi, gwerthoedd a chyfeiriad strategol;
- Fy nhri Cyfarwyddwr, sef y Prif Swyddog Gweithredu, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, ynghyd â Phennaeth yr Uned Gorfforaethol, o ran datblygu a darparu gwasanaethau a'r gallu i gyflawni;
- Y Bwrdd Rheoli (sy'n cynnwys y Cyfarwyddwyr a'r holl Benaethiaid Gwasanaeth) a staff eraill sydd â chylch gorchwyl yn ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol;
- Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Comisiwn (sy'n cyflawni swyddogaeth Pwyllgor Archwilio) sy'n cynnwys un Comisiynydd a thri o gynghorwyr annibynnol y Comisiwn , gydag un ohonynt yn cadeirio;
- Archwilwyr mewnol ac allanol y Comisiwn, RSM Bentley Jennison, a Swyddfa Archwilio Cymru.

### Diben y system rheolaeth fewnol

Cynllunnir y system rheolaeth fewnol i geisio cynnal lefel resymol o risg yn hytrach na cheisio dileu pob risg wrth geisio cyflawni polisïau, nodau ac amcanion; gan hynny, ni ellir rhoi sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd, dim ond sicrwydd rhesymol. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau wrth geisio cyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cynulliad, i bwyso a mesur pa mor debygol yw hi i'r risgiau hynny gael eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd. Datblygwyd y system rheolaeth fewnol ymhellach yn ystod y flwyddyn, gan fanteisio ar ein profiad, canllawiau arferion gorau a chyngor gan gynghorwyr annibynnol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Mae'r system yn cydymffurfio â chyfarwyddyd y Trysorlys ac roedd yn ei lle ar 31 Mawrth 2009 ac hyd at y dyddiad y cymeradwywyd yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol.

**Y gallu i ymdrin â risg**

Yr wyf i a'm Cyfarwyddwyr wedi arwain y gwaith o ddatblygu cyfundrefn rheoli risg a buddion, yn unol ag arferion da, ar gyfer y sefydliad cyfan. Yr ydym wedi gweithio drwy'r Penaethiaid Gwasanaeth i wella rhagor a sefydlu diwylliant sy'n gwireddu cyfleoedd drwy wella'r ffordd y caiff risgiau eu trin. Mae'r Polisi Rheoli Risg a Buddion yn garreg sylfaen allweddol yn system rheolaeth fewnol a threfniadau llywodraethu corfforaethol y Comisiwn. Mae gwaith effeithiol i reoli risg a buddion yn cael ei wneud ar lefelau gweithredol a strategol. Mae'r elfennau allweddol yn ein dull o ymdopi â risg yn cynnwys:

- Cynghorwr Rheoli Risg a Buddion pwrpasol a thîm llywodraethu cryfach;
- Hyrwyddwyr risg ym mhob maes cyfrifoldeb a fforwm rheoli risg sy'n cyfarfod yn rheolaidd;
- Adolygiadau gan y Bwrdd Rheoli ac adolygiadau wyneb yn wyneb o risgiau gweithredol a risgiau strategol sylweddol;
- Y rheolwyr a'r holl staff yn ymwybodol o reoli risg, mannau gwan a sut i awgrymu gwelliannau;
- Tynnu sylw at risgiau sylweddol a rhoi gwybod amdanynt i'm Cyfarwyddwyr, i mi fel Prif Weithredwr a Chlerc, ac i Gomisiwn y Cynulliad fel sy'n briodol.

**Rheolaeth fewnol**

Mae fframwaith risg y Comisiwn yn rhan o system ehangach ar gyfer rheolaeth fewnol sy'n ein cynorthwyo i lywodraethu'n gorfforaethol mewn ffordd effeithiol. Mae'r system hon wedi'i datblygu a'i lledaenu drwy'r holl sefydliad yn ystod y flwyddyn. Yn benodol:

- Mae'r Pwyllgor Corfforaethol yn dal i'm cynghori fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae rhaglen waith y Pwyllgor yn dilyn y model arfer gorau ar gyfer pwyllgor archwilio a chyflawnwyd hunanasesiad yn ystod y flwyddyn;
- Mae'r cofrestri risg wedi cael eu hadolygu a'u symleiddio yn unol â'n profiad o weithredu;
- Mae fframwaith rheoli perfformiad wedi cael ei sefydlu sy'n nodi sut y byddwn yn cynllunio gwasanaethau ac yn rheoli perfformiad. O fewn y fframwaith hwn, yr ydym wedi cynnal adolygiadau rheolaidd o berfformiad ariannol a chynnydd ar faterion allweddol, ac wedi dulliau o fesur perfformiad allweddol i wella'r modd y cyhoeddwn adroddiadau ar ein perfformiad strategol a chorfforaethol.

**Diogelwch Gwybodaeth**

Ar ôl adolygu'r trefniadau diogelwch gwybodaeth yn hydref 2007, mae nifer o gamau wedi'u cymryd, gan gynnwys cyflwyno gwell canllawiau a chodi ymwybyddiaeth am faterion sy'n ymwneud â diogelwch gwybodaeth a'r risg i'n henw da yn sgil unrhyw wendidau. Mae cofrestr asedau gwybodaeth wedi cael ei datblygu ac wrthi'n cael ei harchwilio. Mae gennym Grŵp Fframwaith Polisi Diogelwch sydd wedi datblygu canllawiau Swyddfa'r Cabinet yn gynllun gweithredu ar gyfer y Cynulliad, ac yr ydym yn gwneud cynnydd da gyda'r gwaith hwnnw. Bydd y camau hyn, ynghyd ag ymwybyddiaeth barhaol ymhlith y staff, yn gymorth i sicrhau bod ein harferion yn bodloni safonau diogelwch da, neu'n rhagori arnynt. Y Prif Swyddog Gweithredu yw Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth y Comisiwn.

**i-Change**

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd adolygiad annibynnol o bwys o'r holl dechnoleg a ddefnyddir i gynnal busnes y Cynulliad a'r gwasanaethau a ddarperir i Aelodau'r Cynulliad, y staff a'r cyhoedd. Wrth gynnal yr adolygiad, ymgynghorwyd yn helaeth gyda rhanddeiliaid mewnol, grŵp cyfeirio bychain, darparwyr gwasanaethau a Llywodraeth Cymru. Y prif themâu a ddaeth i'r amlwg oedd yr angen am raglen gwella busnes i ddarparu newidiadau, cysylltu a meithrin perthynas gyda phobl Cymru, rheoli gwybodaeth yn well a gweithio'n gallach.

**Aelodau'r Cynulliad**

Ynghyd â'u cyflogau, mae gan yr Aelodau yr hawl i gael gwahanol lwfansau sydd â'r nod o ad-dalu'r costau a ysgwyddwyd ganddynt er mwyn cyflawni eu dyletswyddau. Mae'r hawl i gael y lwfansau hyn wedi'i nodi yn y 'Penderfyniadau' a wneir gan y Comisiwn o dan y rheolau Sefydlog, gyda chanllawiau gan y Comisiwn yn cyd-fynd â hynny ar gyfer dehongli'r rheolau. Mae'r Penderfyniadau presennol a'r modd y cânt eu rhoi ar waith wedi'i seilio i raddau helaeth ar arferion Tŷ'r Cyffredin. Er bod prosesau rheoli cadarn yn eu lle i sicrhau bod y costau a hawlir yn ôl wedi'u hysgwyddo mewn gwirionedd ( chaiff y system lwfansau ei harchwilio), yr Aelodau eu hunain sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau bod y treuliau hynny wedi'u hysgwyddo mewn ffordd resymol er mwyn eu galluogi i gyflawni eu gwaith. Felly, mae'n anochel bod effeithiolrwydd y systemau rheoli mewnol yn gyfyngedig o dan y trefniadau presennol.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, gwnaed nifer o geisiadau am wybodaeth gan y Cynulliad o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, yn gofyn am holl fanylion y lwfansau a hawliwyd gan yr Aelodau yn y Blynyddoedd Ariannol 2006-07 a 2007-08. Cytunodd y Comisiwn y byddai angen adnoddau sylweddol i gasglu, prosesu ac chadarnhau'r wybodaeth y gofynnwyd amdani er mwyn ei rhyddhau cyn gynted â phosibl, ond fod yn rhaid buddsoddi yn hynny er mwyn dangos ymrwymiad i weithredu'n agored ac i wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r modd y mae'r Comisiwn yn stiwardio arian cyhoeddus. At hynny, mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i gyhoeddi'r wybodaeth hon yn rheolaidd yn y dyfodol, heb fod angen cael cais penodol am hynny. Mae mabwysiadu polisi i gyhoeddi gwybodaeth fanwl am y lwfansau a dalwyd i Aelodau wedi galluogi'r cyhoedd i graffu am y tro cyntaf ar y modd y defnyddir arian cyhoeddus yn y ffordd hwn, ac mae hynny wedi cryfhau'r system rheolaeth fewnol ac wedi gwella effeithiolrwydd y modd y rheolir y gwariant hwn yn sylweddol.

At hynny, sefydlwyd Panel Adolygu Annibynnol yn ystod 2008-09 i gynnal adolygiad manwl o'r cymorth ariannol a roddir i Aelodau'r Cynulliad, a'r dulliau cysylltiedig o reoli hynny. Mae'r Panel wedi bod yn bwrw ati gyda'i waith a chyhoeddodd ei adroddiad ar 6 Gorffennaf 2009. Bydd angen i'r Comisiwn ystyried sut i ymateb i argymhellion y Panel, ond mae'n debygol y bydd y broses hon yn rhoi cyfle i ddiwygio'r system lwfansau mewn modd a fydd yn gwneud yr hawliau'n gliriach ac yn haws eu defnyddio.

Mae sicrhau bod Aelodau yn defnyddio adnoddau'r Cynulliad yn briodol, naill ai'n uniongyrchol neu drwy'r system lwfansau, yn rhan o gylch gorchwyl Comisiynydd Safonau y Cynulliad, sy'n berson annibynnol a benodir gan y Cynulliad. Bydd y Comisiynydd yn rhoi cyngor a chymorth gydag unrhyw fater o egwyddor sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau'r

Cynulliad, a bydd yn ymchwilio'n annibynnol i gwynion bod Aelodau'r Cynulliad wedi gweithredu'n groes i unrhyw god, protocol neu benderfyniad gan y Cynulliad. Bydd y Comisiynydd yn tynnu fy sylw at unrhyw faterion perthnasol a allai godi yn ystod ei ymchwiliadau – er enghraifft, unrhyw amwyster yng ngeiriad penderfyniadau neu ganllawiau na ddylai fod yno.

Mae Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Cynulliad wedi cyflwyno Mesur Cynulliad arfaethedig i roi sail statudol i swyddfa'r Comisiynydd Safonau ac i gryfhau pwerau ymchwilio'r Comisiynydd. Bydd y Mesur arfaethedig, a fydd yn cael ei ystyried gan y Cynulliad yn ystod blwyddyn ariannol 2009/10, yn cynnwys dyletswydd penodol ar ran y Comisiynydd i roi gwybod i'r Swyddog Cyfrifyddu am unrhyw faterion sy'n berthnasol i'w swydd a allai ddod i'r amlwg yn ystod ymchwiliad, fel amwyster yn y rheolau perthnasol neu wendidau yn y system reoli.

**Adolygu effeithiolrwydd**

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb dros adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar waith yr archwilwyr mewnol, y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw'r fframwaith rheolaeth fewnol, Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a sylwadau'r archwilwyr allanol yn eu llythyr ar reolaeth a'u hadroddiadau eraill.

Cefais gyngor ynghylch goblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan fy Nghyfarwyddwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, ac mae cynllun ar y gweill i fynd i'r afael â gwendidau ac i sicrhau bod y system yn gwella'n barhaus.

Rhoddodd adroddiadau archwilio mewnol wedi rhoi digon o sicrwydd o ran y prosesu rheoli cyffredinol, ac ymatebwyd yn briodol i argymhellion yr adroddiadau archwilio mewnol hynny. Paratowyd adroddiadau archwilio mewnol ar reoli risg, llywodraethu corfforaethol, taliadau i gredydwyr, caffael, diogelwch data, y prif ddulliau rheoli cyllid, rheoli asedau TG ac adroddiadau dilynol ar ôl archwiliadau blaenorol. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau y ceir y budd mwyaf a gwerth ychwanegol o'r broses archwilio fewnol, mae angen gwneud llawer o welliannau, gan gynnwys dadansoddi'n ddyfnach fel bod adroddiadau yn rhoi mwy o fanylion na dim ond edrych ar y prif ddulliau rheoli. Dylid cyflwyno'r adroddiadau mewn cyfnodau byrrach hefyd. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi rhoi sylw i'r materion hyn, ac mae'r trefniadau archwilio mewnol ar gyfer 2009/10 yn cael eu hadolygu. Mae Strategaeth Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru a'r Llythyr Rheoli interim ar gyfer 2008-09 yn adlewyrchu'r risgiau a oedd yn wynebu'r Comisiwn wrth iddo lunio'i gyfrifon ar gyfer 2008-09, ac mae hynny'n cynnwys gwaith a wnaed i roi'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol ar waith yn 2009/10.

Roedd proses hunan-adolygu yn ganolog i'n hadolygiad o effeithiolrwydd, ac fe'i cwblhawyd rhwng mis Rhagfyr 2008 a mis Mawrth 2008. Roedd y broses hon yn cynnwys y fframweithiau llywodraethu corfforaethol a chynllunio corfforaethol, trefniadau arweinyddiaeth a rheoli busnes, ac ymwybyddiaeth o'r cyd-destun rheoli a chyfrannu ato. Cefais Ddatganiad Sicrwydd Dros Dro gan y Cyfarwyddwyr ar gyfer eu meysydd cyfrifoldeb eu hunain, ynghyd â Datganiad Sicrwydd terfynol ar ddiwedd y flwyddyn.

Canfuwyd bod angen cymryd nifer o gamau yn dilyn ein hadolygiad y llynedd, a gwnaed cynnydd da gyda'r rhain dros y flwyddyn fel a ganlyn:

- Mae'r gwaith ar ddatblygu Cynllun Parhad Busnes wedi mynd rhagddo, ac mae tîm bychan o staff wedi cyfrannu at gynllun ymarfer ar gyfer gadael Bae Caerdydd mewn argyfwng, a nodwyd camau allweddol y mae angen eu cymryd er mwyn bwrw ymlaen â'r cynllun a'i brofi. Yr wyf yn fodlon gyda'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn, er bod y gwaith yn dal i fynd rhagddo.
- Mae tudalen hafan newydd wedi cael ei datblygu ar gyfer y fewnrwyd ac mae honno bellach yn cyflwyno'n well i staff pwy ydym, yr hyn yr ydym yn ei wneud, a'n trefniadau llywodraethu. Mae cyfres o sesiynau hyfforddi byr wedi cael ei sefydlu er mwyn gwneud y polisïau hyn yn fwy ystyrlon, a bwriedir sefydlu rhaglen cyfathrebu mewnol er mwyn gwella ymwybyddiaeth y staff.
- Mae rhagor o waith wedi'i wneud i ddatblygu diwylliant sy'n ymwybodol o risg ac i sefydlu'r broses honno.

**Edrych tua'r dyfodol**

Mae adolygiad eleni wedi nodi'r meysydd a ganlyn lle gellid cryfhau a gwella:

- Datblygu arbenigedd archwilio mewnol yn y sefydliad ei hun er mwyn sicrhau y ceir y budd mwyaf a gwerth ychwanegol o'r broses archwilio mewnol.
- Datblygu trefniadau ymhellach a'u hintegreiddio o dan y Fframwaith Polisi Diogelwch.
- Datblygu rhagor o arbenigedd ynghylch rheoli prosiectau.
- Prosesu a chyflwyno gwybodaeth am lwfansau'n effeithlon.
- Cynnal mwy o sesiynau i godi ymwybyddiaeth a gwneud polisïau llywodraethu yn fwy ystyrlon, a chryfhau cyfathrebu mewnol er mwyn gwella ymwybyddiaeth staff.
- Datblygu sgiliau staff mewn rheoli cyllid yn ddiogel.
- Datblygu Rhaglen Newid Busnes gan flaenoriaethu prosiectau newydd drwy ddangos sut y byddant yn gwella gwasanaethau i'r cyhoedd (gan gynnwys rhoi rhagor o ystyriaeth i sut y dylid datblygu'r gwasanaeth TGCh, fel darparu un rhwydwaith sengl ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a staff y Cynulliad).

Bydd blwyddyn ariannol 2009/10 yn arbennig o heriol am sawl rheswm. Yn sgil yr anawsterau economaidd cyffredinol, dewisodd y Comisiwn gyfyngu ar lefel y cynnydd yn ei gyllideb gan ymrwymo i ddarparu gwerth am arian ac effeithlonrwydd. Ar yr un pryd, rhaid i ni barhau i ddarparu'r un safonau a gwasanaethau i'r Cynulliad a'i Aelodau, tra bo'n debygol y bydd y baich gwaith yn cynyddu. At hynny, bydd angen ariannu nifer o brosiectau uchelgeisiol, gan gynnwys datblygu'r Pierhead. Bydd angen i ni ymateb i adroddiad y Panel Annibynnol ar y cymorth ariannol sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad. Bydd angen i ni baratoi at y cyfnod sy'n arwain hyd sefydlu'r pedwerydd Cynulliad yn 2011, ac wedi hynny, pan fydd y Cynulliad yn cael ei ddiddymu am y tro cyntaf o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r holl heriau hyn yn golygu ei bod yn fwy hanfodol bod gennym drefniadau cryf ar gyfer rheoli risg, rheoli cyllid a llywodraethu, a bod y trefniadau hynny'n gweithio'n effeithiol. Yn y tymor hwy, er mwyn cyflawni'n llwyddiannus yn y dyfodol, bydd angen parhau i gael cydbwysedd addas rhwng y gwahanol heriau sy'n ein hwynebu, yr adnoddau sydd ar gael i ni, a'r effeithlonrwydd cynyddol sy'n angenrheidiol.

I grynhoi, rwy'n fodlon ein bod wedi ymdrin â'r gwendidau a amlygwyd drwy'r broses adolygu, neu'n bod wrthi'n ymdrin â nhw, a bod y system rheolaeth fewnol wedi datblygu'n effeithiol wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

**Claire Clancy**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**

**Dyddiad: 9 Gorffennaf 2009**

# TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Comisiwn) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r rhain yn cynnwys Datganiad Cyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Datganiad Costau Gweithredu a Datganiad Enillion a Cholledion Cydnabyddedig, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r Datganiad Costau Gweithredu yn ôl Nodau ac Amcanion a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Yr wyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Archwilydd**

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Taliadau a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi a wnaed o dan y ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Nodir y cyfrifoldebau yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau i'w harchwilio'n unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol, ac â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol ( y DU ac Iwerddon).

Byddaf yn datgan a wyf o'r farn bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg, ac a yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau i'w harchwilio wedi'u paratoi'n unol â chyfarwyddyd Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Nodaf a yw'r wybodaeth sy'n cynnwys y Sylwadaeth Rheoli a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, yn gyson, yn fy marn i, â'r datganiadau ariannol. Nodaf hefyd a yw'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymhob ffordd berthnasol ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nodaf hefyd os nad yw'r Comisiwn, yn fy marn i, wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, os nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad neu os nad yw'r wybodaeth a nodwyd gan Drysorlys EM o ran taliadau a thrafodion eraill wedi'i datgelu.

Adolygaf a yw'r Datganiad am Reolaeth Fewnol yn dangos bod y Comisiwn yn cydymffurfio â chyfarwyddyd Trysorlys EM, ac os nad ydyw, byddaf yn nodi hynny. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried a yw'r datganiad hwn yn cwmpasu'r holl risgiau a rheolaethau, nac i lunio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol Comisiwn y Cynulliad na'i weithdrefnau risg a rheoli.

Darllenaf weddill y wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol gan ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Ystyriaf y goblygiadau i'm tystysgrif os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau'n ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

**Sail y farn archwilio**
Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae fy archwiliad yn cynnwys ystyried, ar sail prawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau i'w harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan y Prif Swyddog Cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac ai'r polisïau cyfrifyddu hynny yw'r rhai mwyaf priodol i amgylchiadau'r Comisiwn, ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.
Cynlluniais a chynhaliais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol, yn fy marn i, er mwyn rhoi tystiolaeth ddigonol i mi allu rhoi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau i'w harchwilio, boed hynny drwy dwyll neu wall, a bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymhob ffordd berthnasol a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn yr wyf hefyd wedi ystyried a yw'r wybodaeth yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau i'w harchwilio, yn gyffredinol, wedi'u cyflwyno'n ddigonol.

**Barn**
Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg, yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a'r gyfarwyddiaeth a wnaed o dan y Ddeddf honno gan Drysorlys EM, o sefyllfa Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 31 Mawrth 2009, a'r gofyniad arian parod net, yr alldro adnoddau net, y costau gweithredu net, y costau gweithredu a gymhwyswyd i'r amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwydd Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; ac
- mae'r wybodaeth sy'n cynnwys y Sylwadaeth Rheoli, yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Jeremy Colman**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ**
**14 Gorffennaf 2009**

## DATGANIAD CYFLENWAD CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

### a) Crynodeb o'r Alldro 2008–09

| | | Cyllideb | | | Alldro | | | 2008-09 £'000 | 2007-08 £'000 Alldro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | Gwariant gros | Incwm | Cyfanswm net | Gwariant gros | Incwm wedi'i gym-hwyso | Cyfan-swm net | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: arbedion / (gwariant ychwanegol) | Cyfan-swm net |
| Refeniw | 2 | 44,791 | (160) | 44,631 | 43,857 | (107) | 43,750 | 881 | (280) |
| Cyfalaf | 2 | 1,550 | - | 1,550 | 260 | - | 260 | 1,290 | 944 |
| **Cyfanswm** | | 46,341 | (160) | 46,181 | 44,117 | (107) | 44,010 | 2,171 | 664 |

Ceir eglurhad o'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb a'r alldro yn nodyn 2.

### b) Gofyniad arian parod net 2008-09

| | Nodyn | Amcangyfrif | Alldro | 2008-09 £'000 Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: arbedion/ (gwariant ychwanegol) | 2007-08 £'000 Alldro |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofyniad arian parod net | 4 | 40,757 | 38,024 | 2,733 | 2,915 |

### c) Crynodeb o incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

Yn ogystal ag incwm y gellir ei gadw, mae incwm a ganlyn Comisiwn y Cynulliad yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

| | Nodyn | Rhagolwg 2008-09 £'000 | Alldro 2008-09 £'000 | Alldro 2007-08 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 5 | - | 16 | 35 |

## DATGANIAD COSTAU GWEITHREDU

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

| | Nodyn | 2008-09<br>£'000 | 2007-08<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Costau gweinyddol** | | | |
| Costau cyflogau'r Aelodau, deiliaid swyddi a staff | 6a | 18,124 | 16,521 |
| Costau eraill yr Aelodau | 6b | 7,072 | 6,600 |
| Costau gweinyddol eraill | 7 | 19,296 | 18,565 |
| **Costau Gweinyddol Gros** | | 44,492 | 41,686 |
| Incwm gweithredu | 5 | (123) | (186) |
| **Costau gweithredu net** | | **44,369** | **41,500** |

Mae'r holl weithgareddau'n parhau

## DATGANIAD ENILLION A CHOLLEDION CYDNABYDDEDIG

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

| | Nodyn | 2008-09<br>£'000 | 2007-08<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Colledion net wrth ailbrisio asedau sefydlog | 16b | - | (2,580) |
| Enillion /(colledion) actiwaraidd ar Gynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad | 6a | (370) | 1,714 |
| **Colledion cydnabyddedig ar gyfer y flwyddyn ariannol** | | **(370)** | **(866)** |

## MANTOLEN Ar 31 Mawrth 2009

| | Nodyn | 31 Mawrth 2009 £'000 | 31 Mawrth 2009 £'000 | 31 Mawrth 2008 £'000 | 31 Mawrth 2008 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Eiddo, cyfarpar ac offer | 8 | 68,594 | | 69,966 | |
| Asedau anniriaethol | 9 | 103 | | 138 | |
| **Cyfanswm yr asedau sefydlog** | | | 68,697 | | 70,104 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Stoc | 10 | 27 | | 34 | |
| Symiau i'w derbyn | 11 | 1,187 | | 956 | |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb | 12 | 1,233 | | 2,915 | |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | | 2,447 | | 3,905 |
| **Cyfanswm yr asedau** | | | 71,144 | | 74,009 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| **Symiau i'w talu** | 13 | (5,669) | | (5,416) | |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | | (5,669) | | (5,416) |
| **Asedau sefydlog ac asedau cyfredol net/(rhwymedigaethau)** | | | 65,475 | | 68,593 |
| **Rhwymedigaethau sefydlog** | | | - | | - |
| **Darpariaethau** | 14 | (1,984) | | (1,310) | |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau sefydlog** | | | (1,984) | | (1,310) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | | **63,491** | | **67,283** |
| **Ecwiti Trethdalwyr** | | | | | |
| Y gronfa gyffredinol | 15 | | 61,551 | | 64,686 |
| Y gronfa bensiwn | 16a | | (1,967) | | (1,310) |
| Y gronfa ailbrisio | 16b | | 3,896 | | 3,896 |
| Y gronfa asedau a gafwyd yn rhodd | 16c | | 11 | | 11 |
| | | | **63,491** | | **67,283** |

**Claire Clancy**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**

**Dyddiad:**
**9 Gorffennaf 2009**

# DATGANIAD LLIF ARIAN

**Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009**

| | Nodyn | **2008-09**<br>**£'000** | **2007-08**<br>**£'000** |
|---|---|---|---|
| All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu | 17a | (38,386) | (33,902) |
| All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi | 17b | (260) | (156) |
| Taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru | | (18) | (33) |
| Cyllido | 17c | 36,982 | 37,006 |
| **Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod yn ystod y cyfnod** | **17d** | **(1,682)** | **2,915** |

## DATGANIAD COSTAU GWEITHREDU YN ÔL NODAU AC AMCANION

**Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009**

| | | | **2008-09 £'000** |
|---|---|---|---|
| | **Gros** | **Incwm** | **Net** |
| **Nod** | | | |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Mae'r Cynulliad yn ceisio bod yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder pobl Cymru. | | | |
| **Amcanion** | | | |
| Hyrwyddo datganoli ac annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses. | 5,507 | (31) | 5,476 |
| Dangos undod ac arweiniad ac ymateb yn feiddgar i newidiadau cyfansoddiadol | 3,394 | - | 3,394 |
| Dangos parch, cywirdeb a llywodraethu da | 8,579 | - | 8,579 |
| Gweithio'n gynaliadwy | 4,895 | - | 4,895 |
| Gofalu bod gan y Cynulliad y gwasanaeth gorau, a gaiff ei ddarparu yn y ffordd fwyaf effeithiol | 9,418 | (76) | 9,342 |
| **Is-gyfanswm y costau gweithredu net** | **31,793** | **(107)** | **31,686** |
| **Cyflogau a lwfansau'r Aelodau a chostau cysylltiedig** | 12,324 | - | 12,324 |
| **Gweler nodyn 3: Cysoni'r alldro adnoddau â'r costau gweithredu net** | **375** | **(16)** | **359** |
| **Costau gweithredu net** | **44,492** | **(123)** | **44,369** |

Sefydlwyd pum nod strategol y Comisiwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2008-09, ac felly nid oeddent yn bodoli drwy gydol yr holl flwyddyn ariannol flaenorol. Oherwydd hynny, ni ddyrannwyd y costau gweithredu a'r incwm yn ôl y nodau strategol yn ôl-weithredol.

# NODIADAU Â'R CYFRIFON ADNODDAU

## 1. Datganiad am y polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2008-09 a addaswyd ar gyfer cyfansoddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Comisiwn fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn y Llawlyfr yn dilyn arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y DU ar gyfer cwmnïau i'r graddau y mae hynny'n ystyrlon ac yn briodol i'r sector cyhoeddus.

Lle bo'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu mwyaf priodol o ran amgylchiadau penodol y Comisiwn er mwyn rhoi darlun cywir a theg. Cafodd polisïau cyfrifyddu'r Comisiwn eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

### *1.1 Confensiwn cyfrifyddu*

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i ystyried asedau sefydlog a ail-brisiwyd.

### *1.2 Asedau sefydlog diriaethol*

Y lefel sylfaenol ar gyfer cyfalafu ased sefydlog diriaethol yw £5,000 gan gynnwys TAW na ellir ei adennill. Y trothwy TG yw pan fydd gwerth cyfunol asedau cysylltiedig a brynwyd yn fwy na £5,000. Comisiwn y Cynulliad sy'n dal teitl pob eiddo. Caiff tir ac adeiladau eu hailddatgan yn ôl eu cost gyfredol ar sail prisiadau a wnaed gan briswyr proffesiynol bob pum mlynedd o leiaf. Ni chaiff asedau diriaethol eraill eu hailbrisio gan na fyddai'r symiau dan sylw, ym marn y Comisiwn, yn arwyddocaol.

### *1.3 Asedau sefydlog anniriaethol*

Caiff trwyddedau meddalwedd eu cyfalafu fel asedau sefydlog anniriaethol a'u hamorteiddio ar sail llinell syth dros oes ddisgwyliedig yr ased (3 neu 5 mlynedd).

### *1.4 Asedau a gafwyd yn rhodd*

Caiff asedau a gafwyd yn rhodd eu cyfalafu ar sail eu gwerth presennol ac fel arfer cânt eu hailbrisio yn yr un modd fel asedau a brynwyd. Mae gwerth asedau a gafwyd yn rhodd yn cael ei adlewyrchu yn y gronfa asedau a gafwyd yn rhodd, a gredydir â gwerth y rhodd wreiddiol a'r ailbrisiadau dilynol.

### *1.5 Dibrisiant*

Nid yw tir rhydd-ddaliadol, dogfennau neu gofnodion hanesyddol na gwaith celf yn cael eu dibrisio. Cyfrifir dibrisiad ar gyfradd a fydd yn dileu prisiad adeiladau ac asedau sefydlog diriaethol drwy randaliadau cyfartal dros gyfnod eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig. Ni fydd asedau'n cael eu dibrisio yn y flwyddyn y cânt eu caffael. Isod, rhestrir oes arferol asedau:

| | |
|---|---|
| Adeiladau: | 50 mlynedd neu gyfnod arall a bennir gan |

| | |
|---|---|
| | brisiwr cymwysedig. |
| Offer sefydlog: | 10 mlynedd, neu gyfnod arall a bennir gan y cyflenwr pan gaiff ei brynu neu ei brisio. |
| Cyfarpar yn ymwneud â TGCh: | 3 blynedd |
| Darnau gosod, gosodiadau a chyfarpar swyddfa: | 5 mlynedd |
| Asedau anniriaethol (meddalwedd): | 3 - 5 mlynedd |
| Cerbydau | 4 blynedd |
| Asedau a gafwyd yn rhodd: | I'w hasesu ar ôl eu derbyn |

*1.6 Yr elfen a wireddwyd o'r gronfa ailbrisio*

Mae cost dibrisiant yn cael ei gynnwys yn swm yr asedau a ail-brisiwyd. Gall elfen o'r dibrisiant godi felly oherwydd cynnydd yn y prisiad a byddai'n fwy na'r dibrisiant a fyddai'n cael ei gynnwys yng nghost hanesyddol yr asedau. Byddai'r swm dan sylw'n elw heb ei wireddu ar y prisiant, a chaiff ei drosglwyddo o'r Gronfa Ailbrisio i'r Gronfa Gyffredinol, os yw'n berthnasol.

*1.7 Datganiad Costau Gweithredu*

Mae incwm a chostau gweithredu'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Comisiwn. Mae incwm yn cynnwys costau nwyddau a gwasanaethau yn seiliedig ar y gost lawn i gwsmeriaid allanol. Dangosir incwm a chostau heb gynnwys TAW os gellir ei adennill.

*1.8 Tâl cyfalaf*

Mae tâl, yn adlewyrchu cost cyfalaf a ddefnyddir gan y Comisiwn, wedi'i gynnwys yn y costau gweithredu. Cyfrifir y tâl yn ôl cyfradd safonol y Llywodraeth, sef 3.5% ar yr asedau net perthnasol cyfartalog. Caiff asedau net perthnasol eu diffinio fel yr holl asedau llai rhwymedigaethau ac eithrio asedau a gafwyd fel rhodd a balansau arian parod gyda Swyddfa'r Tâl-feistr Cyffredinol. Cyfrifir y cyfartaledd drwy adio'r balans ar ddiwedd y flwyddyn hon a'r balans ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol a rhannu â dau.

*1.9 Stoc*

Nodir y stoc, gan gynnwys nwyddau i'w hailwerthu, ar lefel isaf y gost a'r pris gwerthadwy net.

*1.10 Cyfnewid Tramor*

Trosir trafodion mewn arian cyfred tramor yn sterling ar y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodion dan sylw. Trosir imprestau cyfred tramor yn sterling ar y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar y pryd.

*1.11 Pensiynau*

Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPCP) - Mae staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y Comisiwn a staff ar secondiad i weithio i'r Comisiwn yn gymwys i fod yn aelod o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cynllun buddion diffiniedig amlgyflogwr nas ariennir yw hwn ac felly ni all y Comisiwn nodi cyfran yr asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol sy'n berthnasol iddo. Cynhaliodd actiwari'r cynllun brisiad llawn o'r cynllun ar 31 Mawrth 2007. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk) sy'n cydymffurfio â Safon Adrodd Ariannol 17.

Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad (AMPS) - Sefydlwyd cynllun pensiwn i Aelodau'r Cynulliad yn wreiddiol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ac mae'n parhau mewn grym o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Cynllun buddion diffiniedig ydyw, ac mae'n gymwys i gyflogau aelodau a chyflog deiliaid swyddi. Telir cost pensiynau Aelodau'r Cynulliad drwy gyfrwng taliadau a gyfrifir ar sail gronnus gydag atebolrwydd i dalu buddion yn y dyfodol o gyfrifon yr AMPS. Bydd unrhyw ddyledion yn y gronfa sy'n codi oherwydd ddiffyg o ran asedau, yn cael eu talu drwy gynyddu'r swm y mae'r Comisiwn yn ei dalu. Wrth gyflwyno adroddiad am asedau a rhwymedigaethau'r Cynllun, mae'r Comisiwn wedi dilyn cyngor y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu gan ddatgelu y mabwysiadwyd Safon Adrodd Ariannol Diwygiedig 17 yn gynnar. Mae'r AMPS yn paratoi ei Gyfrifon Blynyddol ei hun, ar wahân i Gyfrifon y Comisiwn, ac mae'r rhain i'w gweld ar wefan y Cynulliad, www.cynulliadcymru.org.

*1.12 Cost Prydles Gweithredu*

Caiff rhent sy'n daladwy o dan brydlesi gweithredu eu cynnwys yn y datganiad costau gweithredu dros gyfnod y prydlesi.

*1.13 Treth ar Werth*

Caiff y Comisiwn ei drin fel Corff y Goron at ddibenion Deddf Treth ar Werth 1994 a, chan hynny, at ddibenion Adran 41 o'r Ddeddf honno (cymhwyso i'r Goron) caiff ei drin fel un o adrannau'r llywodraeth, ac mae wedi'i eithrio rhag TAW yng nghyswllt nwyddau a gwasanaethau'r Cynulliad. Codir TAW ar y Comisiwn ar y gyfradd safonol yng nghyswllt ei weithgareddau masnachol, fel siop y Cynulliad.

## 2. Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net 2008-09

| | Alldro £'000 | Dadansoddi'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb wreiddiol £'000 | Dadansoddi'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro 2007-08 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Gwariant Refeniw* | | | | | | |
| a Cyflogau a lwfansau'r Aelodau a chostau cysylltiedig | 12,369 | 13,676 | 1,307 | 13,194 | 825 | 12,015 |
| b Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | 12,193 | 12,659 | 466 | 12,200 | 7 | 10,512 |
| e Costau teithio a chynhaliaeth staff | 158 | 218 | 60 | 164 | 6 | 140 |
| e Costau recriwtio/costau eraill yn ymwneud ag Adnoddau Dynol | 283 | 159 | (124) | 229 | (54) | 172 |
| c Costau TGCh | 4,017 | 3,373 | (644) | 4,119 | 102 | 3,568 |
| d Costau adeiladau a chyfleusterau | 8,349 | 6,764 | (1,585) | 8,241 | (108) | 7,721 |
| e Costau hyfforddi a datblygu | 270 | 241 | (29) | 287 | 17 | 217 |
| e Hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth | 548 | 551 | 3 | 581 | 33 | 447 |
| e Costau gweinyddol eraill | 1,698 | 2,375 | 677 | 2,173 | 475 | 2,464 |
| f Dibrisiant a thaliadau llog tybiannol | 3,972 | 4,775 | 803 | 4,775 | 803 | 3,836 |
| **Gwariant Refeniw Gros** | **43,857** | **44,791** | **934** | **45,963** | **2,106** | **41,092** |
| *Incwm Refeniw* | | | | | | |
| e Gwerthiant – Siop y Cynulliad | (31) | (31) | 0 | (40) | (9) | (36) |
| d Incwm rhentu eiddo | (76) | (104) | (28) | (107) | (31) | (114) |
| e Incwm amrywiol | – | (25) | (25) | – | – | (1) |
| **Incwm Refeniw Gros** | **(107)** | **(160)** | **(53)** | **(147)** | **(40)** | **(151)** |
| **GWARIANT REFENIW NET** | **43,750** | **44,631** | **881** | **45,816** | **2,066** | **40,941** |
| **GWARIANT CYFALAF – CREU ASEDAU SEFYDLOG** | **260** | **1,550** | **1,290** | **365** | **105** | **156** |
| **ALLDRO ADNODDAU NET** | **44,010** | **46,181** | **2,171** | **46,181** | **2,171** | **41,097** |

**Roedd yr alldro adnoddau net ar gyfer 2008-09 o fewn 4.7% i'r gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer y flwyddyn (1.6% yn 2007-08).**

**Mae'r eglurhad dros y gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y gyllideb a'r alldro fel a ganlyn:**

*a* *Cyflogau, lwfansau a chostau cysylltiedig:* y prif resymau dros y gwarged yw bod cyflogau Aelodau wedi cynyddu llai na'r disgwyl, bod costau teithio a chynhaliaeth yn llai na'r disgwyl a bod costau'n gysylltiedig â swyddfeydd Aelodau'r Cynulliad yn llai na'r disgwyl. Mae'r rhain i gyd yn gyllidebau sy'n dibynnu ar y galw.

*b* *Cyflogau staff a chostau cysylltiedig:* cafwyd gwarged gan nad oedd staff yn eu swyddi yn ystod y flwyddyn am y cyfnodau a ddisgwyliwyd pan bennwyd y gyllideb.

*c* *Costau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu:* y rheswm dros y diffyg yw'r datblygiadau TGCh ychwanegol a gynlluniwyd yn ystod y flwyddyn er mwyn manteisio ar danwariant mewn meysydd eraill.

*d* *Costau adeiladau a chyfleusterau:* y rheswm dros y diffyg yw'r cywiriad yn y modd y caiff prosiectau eu categoreiddio, a'r newid o wariant cyfalaf i refeniw. Hefyd, cynlluniwyd prosiectau er mwyn manteisio ar danwariant mewn meysydd eraill.

*e* *Costau gweinyddol eraill:* cafwyd gwarged o ganlyniad i lai o ddibyniaeth na'r disgwyl ar y cronfeydd wrth gefn heb eu neilltuo.

*f* *Dibrisiant a thaliadau llog tybiannol:* y rheswm dros y gwarged yw'r ffaith bod gwir gost dibrisiant ar gyfer y flwyddyn yn is na'r hyn a nodwyd yn y gyllideb, oherwydd goramcangyfrif y dibrisiant yn y gyllideb o ganlyniad i ostyngiad mewn gwerth asedau ar ôl eu hailbrisio mewn blynyddoedd blaenorol.

*g* *Gwariant cyfalaf:* fel y nodwyd uchod, y rheswm dros y gwarged yw'r cywiriad yn y modd y caiff prosiectau eu categoreiddio, a'r newid o wariant cyfalaf i refeniw. Caiff ei wrthbwyso gan ddiffyg yn erbyn costau adeiladau a chyfleusterau.

## 3. Cysoni'r alldro adnoddau â'r costau gweithredu net

| | Nodyn | 2008-09<br>£'000 | 2007-08<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Alldro Adnoddau Net | 2 | 44,010 | 41,097 |
| Gwariant cyfalaf | 8 a 9 | (260) | (156) |
| Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | 5 | (16) | (35) |
| Taliadau uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru | | 635 | 594 |
| **Costau gweithredu net** | | **44,369** | **41,500** |

Mae'r taliadau uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru (£635,000) ar gyfer costau cyflog y Llywydd, y Dirprwy Lywydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Y Comisiwn sy'n talu'r cyflogau hyn, ond gan eu bod yn cael eu talu'n uniongyrchol o'r Gronfa, nid ydynt yn cael eu cynnwys yn yr alldro adnoddau net.

## 4. Cysoni'r gofyniad adnoddau net â'r gofyniad arian parod

| | Nodyn | Cyllideb £'000 | Alldro £'000 | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: arbedion/ (ychwanegol) £'000 | Alldro 2007-08 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Alldro adnoddau | 2 | 46,181 | 44,010 | 2,171 | 41,097 |
| Addasiadau i groniadau | | | | | |
| Eitemau heb fod yn arian parod | Gweler isod | (5,339) | (4,275) | (1,064) | (5,424) |
| Newidiadau mewn cyfalaf gweithio ar wahân i arian parod | | (85) | (1,711) | 1,626 | (2,171) |
| **Gofyniad arian parod net** | | **40,757** | **38,024** | **2,733** | **33,502** |

| ***Eitemau heb fod yn arian parod*** | Nodyn | Cyllideb £'000 | Alldro £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb 2008-09 £'000 | Alldro 2007-08 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dibrisiant ac amorteiddiad | **8 a 9** | (2,030) | (1,667) | (363) | (1,577) |
| Addasiadau gwerth teg mewn asedau sefydlog | 8 | - | - | - | (944) |
| Cost Taliadau Cyfalaf | 7 | (2,745) | (2,304) | (441) | (2,465) |
| Cost Cyllid Pensiwn Safon Adrodd Ariannol 17 a newid mewn darpariaethau eraill | | (564) | (304) | (260) | (438) |
| | | (5,339) | (4,275) | (1,064) | (5,424) |

## 5. Dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

| | Rhagolwg 2008-09 £'000 | Alldro 2008-09 £'000 | Alldro 2007-08 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm gweithredu y gellir ei gadw | 160 | 107 | 153 |
| Incwm gweithredu na ellir ei gadw (llog banc) | - | 16 | 33 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 160 | 123 | 186 |
| Swm yr awdurdodwyd i'w gadw | (160) | (107) | (151) |
| Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | - | 16 | 35 |

## 6a. Nifer yr Aelodau a'r staff a chostau cysylltiedig

Costau staff:

| | 2008-09 | | | 2007-08 |
|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | | £'000 |
| | **Staff** | **Aelodau a Deiliaid swyddi** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| Cyflogau | | | | |
| Staff, Aelodau a Deiliaid Swyddi | 9,301 | 4,240 | 13,541 | 12,536 |
| Staff ar secondiad | 350 | | 350 | 132 |
| Costau nawdd cymdeithasol | | | | |
| Staff, Aelodau a Deiliaid Swyddi | 734 | 431 | 1,165 | 1,016 |
| Costau pensiwn eraill | | | | |
| Staff, Aelodau a Deiliaid Swyddi | 1,808 | 1,260 | 3,068 | 2,837 |
| Cyfanswm costau cyflogau Aelodau, Deiliaid Swyddi a staff | **12,193** | **5,931** | **18,124** | **16,521** |

Mae'r Comisiwn yn talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru, fel yr eglurir yn yr Adroddiad Taliadau yn y cyfrifon hyn. Caiff y symiau a delir i Weinidogion Cymru eu datgelu yng Nghyfrifon Adnoddau Cyfunol Llywodraeth Cymru.

Dyma nifer cyfartalog y cyflogeion sy'n cyfateb i amser llawn a gyflogir gan y Comisiwn yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys uwch reolwyr):

| | **2008-09** | **2007-08** |
|---|---|---|
| Staff parhaol | 301.2 | 272.9 |
| Staff ar secondiad | 5.3 | 6.3 |
| Staff dros dro/achlysurol | 13.7 | 13.7 |
| Penodiadau tymor penodol | 2.4 | 1.2 |
| Cyfanswm | 322.6 | 294.1 |

Mae 60 Aelod Cynulliad. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 10 Deiliad Swydd (ar wahân i Weinidogion), 1 Prif Weinidog, 9 o Weinidogion Cymru, 3 Dirprwy Weinidog, ac 1 Cwnsler Cyffredinol.

Mae’r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd a phedwar aelod etholedig (gweler y Sylwadaeth Rheoli i gael rhagor o fanylion). Y tâl am swydd Comisiynydd oedd £11,372 y flwyddyn ers 1 Ebrill 2008 (nid oedd tâl yn ystod 2007-08). Mae’r holl uwch reolwyr a’r holl staff yn cael eu cyflogi gan y Comisiwn.

**Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil**

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddion diffiniedig amlgyflogwr nas ariennir ac felly ni all y Comisiwn nodi cyfran yr asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol sy'n berthnasol iddo. Cynhaliodd actiwari’r cynllun brisiad llawn o’r cynllun ar 31 Mawrth 2007. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Yn ystod 2008-09 roedd cyfraniadau’r cyflogwyr, sef £1.808m yn daladwy i’r PCSPS yn ôl un o bedair cyfradd yn yr ystod 17.1% i 25.5% o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog (nad ydynt wedi newid ers cyfraddau 2007-08). Bydd Actiwari’r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn proses brisio lawn. Adolygwyd y bandiau cyflog a chyfraddau’r cyfraniadau yn 2005-06 ac ni fyddant yn newid tan 2008-09. Pennir cyfraddau’r cyfraniadau i dalu cost y buddion a gronnwyd, yn hytrach na’r buddion a dalwyd, ac maent yn adlewyrchu profiadau’r cynllun yn y gorffennol.

Gall cyflogeion agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfaniad gan y cyflogwr. Cyfrannodd y cyflogwyr £21,000 i ddarparwyr pensiwn cyfranddeiliaid penodedig. Mae cyfraniad y cyflogwr yn dibynnu ar oedran yr aelod ac mae’n amrywio o 7% i 15% o dâl pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn talu swm sy’n cyfateb i gyfraniadau’r cyflogai hyd at 3% o dâl pensiynadwy. Yn ogystal â hyn, roedd cyfraniadau’r cyflogai o £1,000 (0.8%) o dâl pensiynadwy, yn daladwy i’r PCSPC i dalu cost buddion cyfandaliad yn y dyfodol os bydd y cyflogeion hyn yn marw mewn gwasanaeth neu’n ymddeol oherwydd salwch. Pan baratowyd y fantolen, roedd cyfraniadau o £1,000 yn ddyledus i ddarparwyr y pensiwn partneriaeth. Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi’u rhagdalu bryd hynny.

Nid ymddeolodd neb ar sail iechyd yn ystod y flwyddyn, a doedd dim rhwymedigaethau pensiwn cronedig ychwanegol yn ystod y flwyddyn.

**Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad**

Mae cynllun pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn darparu buddion yn seiliedig ar dâl pensiynadwy terfynol. Mae asedau'r cynllun yn cael eu cadw ar wahân i asedau Comisiwn y Cynulliad a phenodir Rheolwr Buddsoddiadau i'w rheoli. Cynhaliodd actiwari'r cynllun brisiad llawn o'r cynllun ar 31 Mawrth 2005 ac fe'i diweddarwyd ar 31 Mawrth 2008 gan actiwari annibynnol cymwysedig. Caiff y cynllun ei ariannu.

Y symiau a gydnabuwyd yn y fantolen:

| | **31 Mawrth 2009 £'000** | **31 Mawrth 2008 £'000** |
|---|---|---|
| Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | 12,388 | 12,661 |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 10,421 | 11,351 |
| Rhwymedigaeth net (gwarged) | 1,967 | 1,310 |
| Swm yn y fantolen | | |
| Rhwymedigaethau | 1,967 | 1,310 |
| Asedau | | - |
| Rhwymedigaeth net | 1,967 | 1,310 |

Y symiau a gydnabuwyd yn y costau gweithredu:

| | **2008-09 £'000** | **2007-08 £'000** |
|---|---|---|
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 1,099 | 1,345 |
| Cost y llog | 920 | 738 |
| Enillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun | (824) | (811) |
| Cyfanswm y gost | 1,195 | 1,272 |
| Dyrannwyd yn y cyfrifon fel a ganlyn: | | |
| Costau pensiwn eraill (cyfraniadau'r Comisiwn) | 908 | 834 |
| Cost cyllido'r pensiwn | 287 | 438 |
| Cyfanswm y gost | 1,195 | 1,272 |

Y symiau a gydnabuwyd yn y Datganiad Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig:

| | **2008-09 £'000** | **2007-08 £'000** |
|---|---|---|
| Gwir enillion llai enillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun | (2,922) | (840) |
| Addasiadau profiad ar rwymedigaethau'r cynllun | 100 | - |

| | | |
|---|---|---|
| Newidiadau mewn tybiaethau sy'n sail i werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | 2,452 | 2,554 |
| Cyfanswm enillion/(colledion) actiwaraidd cydnabyddedig | (370) | 1,714 |

Newidiadau yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun:

| | **31 Mawrth 2009 £'000** | **31 Mawrth 2008 £'000** |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau agoriadol | 12,661 | 12,859 |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 1,099 | 1,345 |
| Cost y llog | 920 | 738 |
| Cyfraniadau gan Aelodau'r Cynulliad (gan gynnwys trosglwyddiadau i mewn) | 405 | 440 |
| Actiwaraidd (enillion) | (2,552) | (2,554) |
| Buddion a dalwyd a threuliau | (145) | (167) |
| Rhwymedigaethau wrth gau'r cyfrifon | 12,388 | 12,661 |

Newidiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun:

| | **31 Mawrth 2009 £'000** | **31 Mawrth 2008 £'000** |
|---|---|---|
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 11,351 | 10,273 |
| Adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun | 824 | 811 |
| Actiwaraidd (colledion) | (2,922) | (840) |
| Cyfraniadau gan Gomisiwn y Cynulliad | 908 | 834 |
| Cyfraniadau gan Aelodau'r Cynulliad (gan gynnwys trosglwyddiadau i mewn) | 405 | 440 |
| Buddion a dalwyd a threuliau | (145) | (167) |
| Gwerth teg asedau'r cynllun wrth gau'r cyfrifon | 10,421 | 11,351 |

Mae'r Comisiwn yn disgwyl cyfrannu £960,000 at Gynllun Pensiwn yr Aelodau yn ystod 2009-10.

Dyma brif gategorïau asedau'r cynllun gan ddangos pa ganran o holl asedau'r cynllun y maent yn ei chynrychioli:

| | **2008-09** | **2007-08** |
|---|---|---|
| Ecwitïau | 60% | 72% |
| Bondiau | 19% | 14% |
| Arian parod | 21% | 14% |

Nid yw asedau'r cynllun yn cynnwys unrhyw eiddo'n uniongyrchol na'n anuniongyrchol. Mae asedau'r cynllun yn cynnwys, yn anuniongyrchol drwy fuddsoddi mewn cronfeydd cyfunol, giltiau a gyhoeddwyd gan lywodraeth y DU a chanddynt werth teg o £1,110,770.

Yr adenillion disgwyliedig ar ecwitïau yw 3% y flwyddyn yn uwch na'r elw ar giltiau ar ddyddiad cyflwyno'r adroddiad hwn. Yr adenillion disgwyliedig ar fondiau yw'r elw adbrynu ar y bondiau y mae'r cynllun yn eu dal (yn uniongyrchol) ar ddyddiad cyflwyno'r adroddiad hwn. Yr adenillion disgwyliedig ar arian parod yw cyfradd sylfaenol Banc Lloegr ar ddyddiad cyflwyno'r adroddiad hwn.

Y gwir adenillion ar asedau'r cynllun yn 2008-09 oedd colled o £2.1 miliwn (colled o £29,000 yn 2007-08).

Y prif dybiaethau actiwaraidd ar ddyddiad paratoi'r fantolen:

| | **31 Mawrth 2009** | **31 Mawrth 2008** |
|---|---|---|
| Cyfradd gostyngiad | 6.9% | 6.9% |
| Cynnydd mewn cyflogau yn y dyfodol | 4.5% | 5.2% |
| Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol | 3.0% | 3.7% |
| Cyfradd adennill ddisgwyliedig ar ecwitïau | 6.7% | 7.5% |
| Cyfradd adennill ddisgwyliedig ar fondiau | 4.5% | 5.5% |
| Cyfradd adennill ddisgwyliedig ar arian parod | 0.5% | 5.3% |
| Hyd oes ddisgwyliedig ar ôl 65 oed (blynyddoedd) | | |
| Dynion | 25.6 | 24.6 |
| Menywod | 28.6 | 27.6 |

Dyma'r symiau ar gyfer y cyfnod presennol a'r pedwar cyfnod blaenorol:

| | **31 Mawrth 2009 £'000** | **31 Mawrth 2008 £'000** | **31 Mawrth 2007 £'000** | **31 Mawrth 2006 £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Rhwymedigaeth buddion diffiniedig | 12,388 | 12,661 | 12,859 | 8,951 |
| Asedau'r cynllun | 10,421 | 11,351 | 10,273 | 8,984 |
| Gwarged/(diffyg) | (1,927) | (1,310) | (2,586) | 33 |
| Addasiadau profiad ar rwymedigaethau'r cynllun | 100 | Nil | (22) | Nil |
| Addasiadau profiad ar asedau'r cynllun | (2,922) | (840) | (171) | 1,657 |

Mae rhagor o wybodaeth am Gynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad ar gael yn adroddiad blynyddol a chyfrifon y cynllun ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009.

## 6b. Costau eraill yr Aelodau

Mae costau eraill yr Aelodau, sef £7.072 miliwn, yn y datganiad costau gweithredu yn cynnwys:

| | 2008-09 £'000 | 2007-08 £'000 |
|---|---|---|
| Lwfans Costau Swyddfa | 753 | 768 |
| Lwfans Costau Ychwanegol | 415 | 440 |
| Lwfans Costau Staff yr Aelodau | 5,615 | 5,122 |
| Costau teithio | 289 | 270 |
| **Cyfanswm costau eraill yr Aelodau** | **7,072** | **6,600** |

## 7. Costau gweinyddol eraill

Mae costau gweinyddol eraill, gwerth £19,296 miliwn, yn y datganiad costau gweithredu'n cynnwys:

| | 2008-09 £'000 | 2007-08 £'000 |
|---|---|---|
| Adeiladau a chyfleusterau | 6,095 | 5,423 |
| Rhenti o dan brydlesi gweithredu | 2,255 | 2,299 |
| Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu | 4,176 | 3,568 |
| Hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth | 548 | 447 |
| Hyfforddi a datblygu | 393 | 217 |
| Costau Adnoddau Dynol/recriwtio eraill | 160 | 172 |
| Costau teithio a chynhaliaeth staff | 158 | 140 |
| Costau gweinyddol eraill | 1,539 | 1,313 |
| *Eitemau heb fod yn arian parod* | | |
| Dibrisiant ac amorteiddiad | 1,668 | 1,577 |
| Addasiadau gwerth teg mewn asedau sefydlog | - | 944 |
| Cost taliadau cyfalaf | 2,304 | 2,465 |
| **Cyfanswm y costau gweinyddol eraill** | **19,296** | **18,565** |

Y gost y cytunwyd arni ar gyfer archwilio'r datganiadau hyn yn allanol yw £63,475 (£57,950 ar gyfer y gwaith archwilio statudol a £5,525 ar gyfer y gwaith archwilio anstatudol) .

## 8. Eiddo, cyfarpar ac offer

**2008-09**
**£'000**

| | Tir ac Adeiladau | Technoleg Gwybodaeth | Dodrefn a Gosodiadau* | Cerbydau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | 65,731 | 7,492 | 883 | 41 | 74,147 |
| Ychwanegiadau | - | 29 | 151 | 80 | 260 |
| Gwerthu | - | - | - | - | - |
| Ailbrisio | | - | - | - | |
| Ar 31 Mawrth 2009 | 65,731 | 7,521 | 1,034 | 121 | 74,407 |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | 2,706 | 1,149 | 294 | 31 | 4,180 |
| Costau yn ystod y flwyddyn | 745 | 774 | 104 | 10 | 1,633 |
| Gwerthu | - | - | - | - | - |
| Ailbrisio | - | - | - | - | - |
| At 31 Mawrth 2009 | 3,451 | 1,923 | 398 | 41 | 5,813 |
| **Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2009** | **62,280** | **5,598** | **636** | **80** | **68,594** |
| Gwerth net ar bapur ar 1 Ebrill 2008 | 63,025 | 6,343 | 588 | 10 | 69,966 |

* Mae dodrefn a gosodiadau yn cynnwys 'asedau a gafwyd yn rhodd', gan gynnwys y Byrllysg a gyflwynwyd gan Senedd De Cymru Newydd pan agorwyd y Senedd.

Eiddo'r Comisiwn yw'r holl asedau sefydlog diriaethol, ac nid oes unrhyw eiddo'n cael ei brydlesu. Mae asedau tir ac adeiladau'n cynnwys y Senedd a'r Pierhead.

DS Gibbon FRICS o GVA Grimley International Property Advisers a ailbrisiodd y Pierhead, yn ôl ei bris ar sail cost dibrisiant ar 31 Mawrth 2009. Cafodd y Pierhead ei ailbrisio ar gost dibrisiadwy amnewidiol.

## 9. Asedau sefydlog anniriaethol

Mae asedau sefydlog anniriaethol yn cynnwys trwyddedau meddalwedd ar gyfer rhai o'r prif systemau a ddefnyddir gan y Comisiwn.

| | 2009 Cyfanswm £'000 | 2008 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | 172 | 158 |
| Ychwanegiadau | - | 14 |
| Gwerthu | - | - |
| Ailbrisio | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | 172 | 172 |
| | | |
| **Amorteiddiad** | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | 34 | - |
| Costau yn ystod y flwyddyn | 35 | 34 |
| Gwerthu | - | - |
| Ailbrisio | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | 69 | 34 |
| **Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2009** | **103** | **138** |
| Gwerth net ar bapur ar 1 Ebrill 2008 | 138 | 158 |

## 10. Stoc

| | 31 Mawrth 2009 £'000 | 31 Mawrth 2008 £'000 |
|---|---|---|
| Stoc ar gyfer Siop y Cynulliad | 27 | 34 |

## 11. Symiau i'w derbyn gan fasnachwyr

| | 31 Mawrth 2009 £'000 | 31 Mawrth 2008 £'000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn:** | | |
| Dyledwyr masnachol | - | 28 |
| Adneuon a blaendaliadau | - | - |
| Dyledwyr eraill | 6 | 4 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 618 | 563 |
| TAW y gellir ei adennill | 563 | 356 |
| Symiau sy'n ddyledus o Gronfa Gyfunol Cymru yng nghyswllt taliadau uniongyrchol | - | 5 |
| | **1,187** | **956** |

Nid oedd unrhyw symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

## 12. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

| | 2008-09 £'000 | 2007-08 £'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 2,915 | - |
| Newid net mewn balansau arian parod | (1,682) | 2,915 |
| Balans ar 31 Mawrth | 1,233 | 2,915 |
| Balansau ar 31 Mawrth sy'n cael eu dal gan: | | |
| Swyddog Tâl-feistr Cyffredinol EM | 754 | 2,461 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 479 | 454 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,233** | **2,915** |

## 13. Symiau i'w talu i fasnachwyr a rhwymedigaethau presennol eraill

| | 31 Mawrth 2009 £'000 | 31 Mawrth 2008 £'000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn** | | |
| TAW – net gyda balans Nodyn 11 | 2 | 2 |

| | | |
|---|---|---|
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 603 | 588 |
| Credydwyr masnachol | 1,901 | 1,401 |
| Credydwyr eraill | 22 | - |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 1,908 | 508 |
| Symiau'n ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru | 1,233 | 2,917 |
| | **5,669** | **5,416** |

Nid oedd unrhyw symiau'n ddyledus i fasnachwyr ar ôl mwy na blwyddyn.

## 14. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

O dan Safon Adrodd Ariannol 17, caiff rhwymedigaeth o £1.967 miliwn ei chydnabod ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn nodyn 6. Ceir darpariaeth bellach o £17,000 ar gyfer ad-daliadau i staff ym mis Mawrth 2010 ar ôl newid telerau contractau staff diogelwch.

| | **Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad £'000** | **Darpariaeth ar gyfer gwneud ad-daliadau i staff £'000** | **2008-09 Cyfanswm £'000** | **2007-08 Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 1,310 | - | 1,310 | 2,586 |
| Codiadau yn ystod y flwyddyn | 657 | 17 | 674 | (1,276) |
| Wedi'i ddefnyddio neu ei ryddhau yn ystod y flwyddyn | - | - | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,967** | **17** | **1,984** | **1,310** |

## 15. Y Gronfa Gyffredinol

Mae'r Gronfa Gyffredinol yn cynrychioli cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau'r Comisiwn i'r graddau nad yw'r cyfanswm yn cael ei gynrychioli gan gronfeydd wrth gefn ac eitemau cyllido eraill.

| | **2008-09 £'000** | **2007-08 £'000** |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 64,686 | 69,222 |
| Cyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru | 39,257 | 36,417 |
| Taliadau uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru | 635 | 594 |

| | | |
|---|---|---|
| Derbyniadau sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | (16) | (35) |
| Symiau sy'n ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru ar ddiwedd y flwyddyn - Cyflenwad | (1,233) | (2,915) |
| Costau Gweithredu Net | (44,369) | (41,500) |
| Costau heb fod yn arian parod | 2,304 | 2,465 |
| Trosglwyddwyd o'r Gronfa Bensiwn wrth gefn | 287 | 438 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **61,551** | **64,686** |

## 16. Cronfeydd wrth gefn

### (a) Y gronfa bensiwn wrth gefn

Mae'r Gronfa Bensiwn wrth gefn yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng gwerth presennol rhwymedigaethau'r Cynllun ar gyfer costau pensiwn yn y dyfodol, fel yr amcangyfrifwyd hynny gan actiwari'r Cynllun, a gwerth teg presennol asedau'r Cynllun (fel sy'n ofynnol gan FRS 17). Mae'r balans ar 31 Mawrth 2009 yn adlewyrchu'r rhwymedigaethau rhagamcanol sy'n fwy nag asedau'r Cynllun o £1.967 miliwn.

| | **2008-09** | **2007-08** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Balans ar 1 Ebrill | (1,310) | (2,586) |
| Symudiadau yn ystod y flwyddyn | (657) | 1,276 |
| | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **(1,967)** | **(1,310)** |

### (b) Y gronfa ailbrisio

Mae'r gronfa ailbrisio yn adlewyrchu'r elfen heb ei gwireddu ym malans cronnol addasiadau mynegeio ac ailbrisio (ac eithrio asedau a gafwyd yn rhodd).

| | **2008-09** | **2007-08** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Balans ar 1 Ebrill | 3,896 | 6,476 |
| Yn codi ar ôl ailbrisio yn ystod y flwyddyn (net) | - | (2,580) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **3,896** | **3,896** |

### (c) Y gronfa asedau a gafwyd yn rhodd

Mae'r gronfa asedau a gafwyd yn rhodd yn adlewyrchu gwerth ar bapur yr asedau a roddwyd i'r Comisiwn.

| | **2008-09** | **2007-08** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Balans ar 1 Ebrill | 11 | 11 |

| | | |
|---|---|---|
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | - | - |
| Ailbrisio yn ystod y flwyddyn | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **11** | **11** |

## 17. Nodiadau sy'n cyd-fynd â'r Datganiad Llif Arian

### (a) Cysoni'r costau gweithredu â'r llifau arian gweithredu

| | **2008-09** | **2007-08** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Costau gweithredu net | (44,369) | (41,500) |
| *Addasiadau ar gyfer trafodion heb fod yn arian parod:* | | |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn stoc | 7 | (5) |
| (Cynnydd) mewn dyledwyr | (231) | (325) |
| *Llai symudiadau mewn dyledwyr mewn perthynas ag eitemau nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y Datganiad Costau Gweithredu* | (5) | 5 |
| Cynnydd mewn credydwyr | 253 | 5,416 |
| *Llai symudiadau mewn credydwyr mewn perthynas ag eitemau nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y Datganiad Costau Gweithredu* | 1,684 | (2,917) |
| Eitemau heb fod yn arian parod | 4,275 | 5,424 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | **(38,386)** | **(33,902)** |

### (b) Dadansoddiad o wariant cyfalaf a buddsoddiadau ariannol

| | | **2008-09** | **2007-08** |
|---|---|---|---|
| | Nodyn | **£'000** | **£'000** |
| Ychwanegiadau asedau sefydlog diriaethol | 8 | (260) | (142) |
| Ychwanegiadau asedau sefydlog anniriaethol | 9 | - | (14) |
| **All-lif arian parod net o fuddsoddiadau** | | **(260)** | **(156)** |

## (c) Dadansoddi cyllido

| | Nodyn | 2008-09<br>£'000 | 2007-08<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Gan Gronfa Gyfunol Cymru (Cyflenwad) | 15 | 36,342 | 36,417 |
| Gan Gronfa Gyfunol Cymru (taliadau uniongyrchol) | 15 | 640 | 589 |
| **Cyllido net** | | **36,982** | **37,006** |

## (d) Cysoni'r gofyniad arian parod net â chynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod

| | Nodyn | 2008-09<br>£'000 | 2007-08 £'000 |
|---|---|---|---|
| Gofyniad arian parod net | 4 | (38,024) | (33,502) |
| Gan Gronfa Gyfunol Cymru (Cyflenwad) | 17c | 36,342 | 36,417 |
| **Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod** | | **(1,682)** | **2,915** |

## 18. Ymrwymiadau cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf y contractiwyd ar eu cyfer ar 31 Mawrth 2009 na 31 Mawrth 2008.

## 19. Ymrwymiadau o dan brydlesi

### *(a) Prydlesi gweithredu*

Yn y tabl isod, nodir yr ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredu i dalu rhenti yn ystod y flwyddyn ar ôl y cyfnod ariannol hwn, wedi'u dadansoddi yn ôl cyfnod yr ymrwymiadau .

| | 2008-09<br>£'000 | 2007-08<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Mae'r rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredu'n cynnwys:** | | |
| Tir ac adeiladau: | | |
| Yn dod i ben cyn pen blwyddyn | - | - |
| Yn dod i ben ar ôl blwyddyn ond cyn pen 5 mlynedd | 36 | 66 |
| Yn dod i ben wedi hynny | 2,070 | 2,086 |

| | | |
|---|---:|---:|
| | **2,106** | **2,152** |
| Eraill – argraffwyr a chopïwyr: | | |
| Yn dod i ben cyn pen blwyddyn | 79 | - |
| Yn dod i ben ar ôl blwyddyn ond cyn pen 5 mlynedd | 2 | 95 |
| Yn dod i ben wedi hynny | - | - |
| | **81** | **95** |

*(b) Prydlesi cyllidol*

Nid oes unrhyw ymrwymiadau o dan brydlesi cyllidol.

## 20. Ymrwymiadau ariannol eraill

Mae tri o gontractau'r Comisiwn (nad ydynt yn brydlesi) yn gontractau na ellir eu diddymu, oherwydd natur trefniadau'r contract. Mae'r contractau'n ymwneud â darparu cymorth a gwasanaeth TGCh i'r Cynulliad, a rheoli gweinyddwyr ar gyfer y systemau Adnoddau Dynol a Chyllid a ddefnyddir gan y Comisiwn. Dangosir isod y taliadau y mae'r Comisiwn wedi ymrwymo iddynt ar ddiwedd y cyfnod ariannol, wedi'u dadansoddi yn ôl cyfnod yr ymrwymiadau.

| | **2008-09**<br>**£'000** | **2007-08**<br>**£'000** |
|---|---:|---:|
| **Mae'r rhwymedigaethau o dan gontractau na ellir eu ddiddymu'n cynnwys:** | | |
| Yn dod i ben cyn pen blwyddyn | - | - |
| Yn dod i ben ar ôl blwyddyn ond cyn pen 5 mlynedd | 30 | 79 |
| Yn dod i ben wedi hynny | 5,527 | 4,000 |
| | **5,557** | **4,079** |

Mae contractau eraill y Comisiwn yn cyfeirio at derfynu contract yn gynnar ond nid oes taliadau wedi'u pennu ar gyfer hyn. Byddai'r Comisiwn yn torri'r contract pe bai'n terfynu'r contract yn gynnar a gallai'r contractiwr hawlio iawndal am yr elw y byddai wedi'i ennill pe bai'r contract wedi parhau am y cyfnod llawn. Gan fod y ffigur hwn yn amrywio ar gyfer pob contract, nid yw'r contractau hyn wedi'u cynnwys yn y nodyn hwn.

## 21. Offerynnau ariannol

Nid yw'r Comisiwn yn cyhoeddi nac yn masnachu mewn offerynnau ariannol fel rhoi benthyciadau ac nid yw wedi benthyca arian. Mae'n dibynnu'n bennaf ar gyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru am ei ofynion arian parod ac, felly, nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Hefyd, nid oes ganddo adneuon arwyddocaol ac mae'r holl asedau a'r rhwymedigaethau perthnasol mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg arian cyfred.

## 22. Rhwymedigaethau amodol

Mae gan Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad hawliau dan gontract i swm sy'n cyfateb i 10% o'u cyflog blynyddol gros gael ei gyfrannu tuag at bensiwn, ond nid ydynt i gyd wedi arfer yr hawl hon. Mae'r rhwymedigaeth yn parhau am chwe blynedd wedi i'w cyflogaeth ddod i ben, ac fe'u hamcangyfrifir fel a ganlyn:

| | Swm a oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2009<br>£'000 | Swm a oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2008<br>£'000 | Swm a dalwyd yn 2008-09<br>£'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Cyfraniadau pensiwn gan staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad sydd: | | | | |
| Yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd ond ddim yn cyfrannu at gynllun pensiwn | 75 | 29 | - | Posibl |
| Wedi gadael swydd heb ymuno â chynllun pensiwn erioed | 43 | 43 | - | Annhebygol iawn |

Nid yw'r Comisiwn wedi ymgymryd ag unrhyw rwymedigaethau amodol mesuradwy nac anfesuradwy drwy roi gwarant, indemniad neu lythyr cysur.

## 23. Colledion a thaliadau arbennig

Dyma nifer a gwerth y colledion a'r taliadau arbennig a wnaed yn ystod 2008-09:

### (a) Datganiad colledion

| **2008-09** | ***Nifer yr achosion*** | **Gwerth £'000** |
|---|---|---|
| Cyfanswm | *11* | 26 |

| | | |
|---|---|---|
| Iawndal | *1* | - |
| Colledion deongliadol | *3* | 1 |
| Taliadau ofer | *6* | 1 |
| Ex-gratia | *1* | 24 |

Yn ystod 2008-09 nid oedd unrhyw golledion arian parod na hawliadau ofer.

*Yn ystod y flwyddyn, gwnaed un taliad iawndal o £20.00.*

(b) **Taliadau arbennig**

| | ***Nifer yr achosion*** | **Gwerth £'000** |
|---|---|---|
| Cyfanswm | *2* | 4 |

## 24. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Mae'r Comisiwn yn cynnal nifer o drafodion â Llywodraeth Cynulliad Cymru ac adrannau eraill y llywodraeth a chyrff cyhoeddus, gan gynnwys Trysorlys Ei Mawrhydi. Yn ogystal â hyn, mae'n cynnal trafodion rheolaidd â Chynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad – gweler nodyn 6. Yn ôl Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru mae'n ofynnol i'r Cynulliad, ar sail cynnig gan y Comisiwn, ethol Ymddiriedolwyr i Gynllun Pensiwn yr Aelodau.

Gall y Cynulliad roi cyfarwyddyd arbennig neu gyffredinol i'r Comisiwn at ddibenion, neu yng nghyswllt, arfer swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad.

Nid yw'r Comisiwn wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol gyda'r Comisiynwyr, yr uwch reolwyr nac aelodau agos o'u teuluoedd, na chyda sefydliadau lle mae gan y Comisiynwyr, yr uwch reolwyr neu aelodau agos o'u teuluoedd swyddi rheoli neu swyddi dylanwadol.

Er mwyn sicrhau tryloywder, nodir y mân drafodion hyn:

- Talwyd £3,319.99 i Ddinas a Sir Abertawe er mwyn ad-dalu costau swyddfeydd gwahanol Aelodau'r Cynulliad. Mae Peter Black AC yn gynghorydd yn Abertawe.
- Talwyd £4,844.07 i Gyngor Bro Morgannwg er mwyn ad-dalu costau swyddfeydd a chostau ysgrifenyddol gwahanol Aelodau'r Cynulliad. Mae Chris Franks AC yn gynghorydd ym Mro Morgannwg.

Y Comisiwn sy'n pennu cyflogau a lwfansau holl Aelodau'r Cynulliad a'r holl ddeiliaid swyddi, ynghyd â chyflogau a pholisïau amodau staff y Comisiwn. Caiff y Comisiynwyr, fel Aelodau'r Cynulliad, gyflogi aelodau o'u teuluoedd i weithio fel staff cymorth; does dim cyfyngiadau o ran cyflogi aelodau o deuluoedd y Comisiynwyr neu'r uwch reolwyr i weithio i'r Comisiwn.

Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Aelodau'r Cynulliad ar gael yn www.cynulliadcymru.org.